Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
29/2019
DYDDIAD CYHOEDDI:
04/07/2019

Adolygiad o'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83876-429-6

Adolygiad o'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd

Awdur: Elspeth Garratt

Garratt, E. (2019). *Adolygiad o'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth rhif 29/2019.
Ar gael yn: https://llyw.cymru/cynllun-buddsoddi-mewn-busnesau-bwyd-adolygiad

Safbwyntiau'r ymchwilydd sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad yma, ac nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Kathleen Mulready
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
0300 025 1481
kathleen.mulready001@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Geirfa 2
1. Cyflwyniad 3
2. Methodoleg 6
3. Canfyddiadau 12
4. Casgliadau 43
Adran gyfeirio 45
Atodiad A – Tabl o'r Ymgeiswyr 46
Atodiad B – Gwybodaeth Gefndir/Ychwanegol 47
Atodiad C - Cwestiynau'r arolwg 49
Atodiad D - Canllaw cyfweld (busnesau bwyd) 56
Atodiad E - Canllaw cyfweld (swyddogion cymorth busnes) 60
Atodiad F – Astudiaeth Achos 63

Rhestr o'r tablau

Tabl 1: Dadansoddiad o'r sampl o Fusnesau Bwyd yn ôl rhanbarth. 9

Rhestr o'r ffigurau

Siart 1.1: Cymhelliant dros ymgeisio am gymorth gan y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd. 14
Siart 1.2: Ffynonellau eraill o gyllid. 14
Siart 1.3: Bodlonrwydd â'r gefnogaeth gan swyddogion Llywodraeth Cymru. 16
Siart 1.4: Anghenion prosiect a gyflawnwyd 18
Siart 1.5: Sylfaen cwsmeriaid 26
Siart 1.6: Gan feddwl am amserlen y broses ymgeisio, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol? 28
Siart 1.7: Yr amserlen 36

Geirfa

Acronym	**Diffiniad**
RDP	Rhaglen Datblygu Gwledig
GSR	Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth
KAS	Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
BBaCh	Busnesau Bach a Chanolig
EOI	Datganiadau o Ddiddordeb

1. Cyflwyniad

1.1 Ym mis Medi 2018, comisiynodd Is-adran Fwyd Llywodraeth Cymru adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth yn amlinellu canfyddiadau'r adolygiad o'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd. Cynhaliwyd yr adolygiad gan ymchwilwyr cymdeithasol Llywodraeth Cymru o'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi. Mae'r sector bwyd a diod yn sector sy'n flaenoriaeth i'r economi yng Nghymru. Bydd canfyddiadau'r adolygiad hwn yn helpu i gyfrannu at benderfyniadau ynghylch cymorth i fusnesau yn y dyfodol, ac wedi hynny, bydd yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu cynllun gweithredu a strategaeth newydd Llywodraeth Cymru i gefnogi diwydiant bwyd a diod Cymru ar ôl 2020.[1]

1.2 Nod yr adolygiad hwn oedd cael syniad ynghylch pa mor effeithiol yw'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd. Yn fwy penodol, amcanion yr adolygiad oedd cael barn gan amryw o randdeiliaid sydd wedi cael cymorth gan y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd neu sy'n cael cymorth o'r fath ar hyn o bryd, yn ogystal â'r rhai hynny sy'n cefnogi'r broses o gyflwyno'r Cynllun er mwyn:

- mesur bodlonrwydd â'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd ac asesu pa mor effeithiol y mae'r cynllun wedi bod ar gyfer busnesau;
- deall y meysydd sy'n gweithio'n dda ac unrhyw feysydd allweddol y mae angen eu gwella; a
- helpu i flaenoriaethu a datblygu cynlluniau ariannu yn y dyfodol

1.3 Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar ganfyddiadau arolwg ar-lein a anfonwyd at sampl o fusnesau sydd wedi cael cymorth gan y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd neu sy'n cael cymorth o'r fath ar hyn o bryd, cyfweliadau ansoddol gyda sampl o'r busnesau hynny, yn ogystal â chyfweliadau â swyddogion cymorth busnes Llywodraeth Cymru (Rheolwyr Busnes - Bwyd) a Cywain.[2]

[1] Strategaeth a Chynllunio at y Dyfodol ar gyfer Bwyd a Diod yng Nghymru [Agorwyd: 05/04/19].
[2] Un o brosiectau Menter a Busnes yw Cywain, sy'n ceisio helpu i ddatblygu cynhyrchion neu farchnadoedd newydd ar gyfer cynnyrch cynradd amaethyddol neu bysgodfeydd [Agorwyd: 29/04/19].

1.4 Dyma strwythur gweddill yr adroddiad hwn:

- Mae gweddill y bennod hon yn amlinellu cyd-destun polisi'r adolygiad;
- Mae Pennod 2 yn amlinellu'r fethodoleg, cwmpas a chyfyngiadau'r adolygiad ac yn egluro sut cynhaliwyd yr astudiaeth hon;
- Mae Pennod 3 yn amlinellu canfyddiadau'r arolwg ar-lein a'r cyfweliadau ansoddol;
- Mae Pennod 4 yn crynhoi casgliadau'r ymchwil.

Cyd-destun

1.5 Caiff y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd ei ariannu gan raglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig. Mae hon yn rhaglen sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig yr Undeb Ewropeaidd. Nod y gwaith sy'n cael cymorth drwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig yw gwneud sectorau amaethyddiaeth a choedwigaeth Cymru yn fwy cystadleuol; diogelu a gwella'r amgylchedd naturiol; gwella ansawdd bywyd mewn ardaloedd gwledig; a meithrin busnesau gwledig cystadleuol a chynaliadwy a chymunedau gwledig sy'n ffynnu.

1.6 Ddiwedd Gorffennaf 2015, lansiodd y Gweinidog Ffermio a Bwyd ar y pryd y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig newydd. Roedd y cynllun wedi'i greu i ddarparu cymorth i fusnesau Cymru ac i ganolbwyntio ar swyddi yn y sector bwyd. Nod cyffredinol y cymorth grant sy'n cael ei ddyrannu drwy'r cynllun yw galluogi diwydiannau bwyd, ffermio a choedwigaeth Cymru i wella cynhyrchiant, amrywiaeth ac effeithlonrwydd, a hybu twf economaidd gwledig cadarn a chynaliadwy a datblygiadau o dan arweiniad y gymuned.[3]

1.7 Yn fwy penodol, nod y cynllun yw helpu cynhyrchwyr cynnyrch amaethyddol ar lefel gynradd yng Nghymru i ychwanegu gwerth at eu cynnyrch drwy ddarparu cymorth i'r busnesau hynny sy'n cynnal gweithgareddau prosesu cam cyntaf a/neu ail gam. Mae hefyd wedi'i ddylunio i wella perfformiad a chystadleurwydd eu busnesau; i ymateb i'r galw gan ddefnyddwyr; i hybu arallgyfeirio ac i ganfod, datblygu a gwasanaethu marchnadoedd presennol a newydd.

[3] Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 [Agorwyd: 07/04/19].

1.8 Rhaid i brosiectau sy'n cael cymorth gan y cynllun roi sylw i un neu ragor o'r amcanion thematig sy'n cael eu rhestru yn y canllawiau ymgeisio:

- hyrwyddo a datblygu sector bwyd a diod bywiog sy'n tyfu yng Nghymru
- parhau i ddatblygu delwedd werdd ar sail dulliau cynhyrchu cynaliadwy
- meithrin cydnerthedd pellach yn y diwydiant i wrthsefyll newidiadau yn y farchnad
- sbarduno gwelliannau o ran diogelwch bwyd
- hyrwyddo arloesedd technolegol mewn cynhyrchion a phrosesau
- darparu cyfleoedd gyrfa ar lefelau sgiliau amrywiol.[4]

1.9 Ers 2015, mae'r Is-adran Fwyd wedi bod yn gyfrifol am roi cymorth i 65 o fusnesau drwy'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd ledled Cymru. Rhagwelir y bydd rhagor o gyfleoedd i ymgeisio'n codi yn ystod gwanwyn 2019 a 2020 (yn dibynnu ar gymeradwyo cyllideb). Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Atodiad A, hyd at 4ydd mis Chwefror 2019, gan gynnwys nifer y ceisiadau llawn a gyflwynwyd a nifer y ceisiadau a gymeradwywyd.

1.10 Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei chynigion ar gyfer diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin ar ôl i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd; Brexit a'n tir: Diogelu dyfodol ffermio yng Nghymru.[5] Mae hyn yn cynnwys cynigion sy'n ymwneud â hyrwyddo Cydnerthedd Economaidd ffermwyr a rheolwyr tir[6] ac ar hyn o bryd, mae'n cynnig cymorth arallgyfeirio yng nghyswllt cynhyrchu bwyd.

1.11 Roedd Is-adran Fwyd Llywodraeth Cymru yn dymuno adolygu'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd fel rhan o becyn ariannu'r Rhaglen Datblygu Gwledig er mwyn cael gwell gwybodaeth wrth wneud penderfyniadau ynghylch datblygu trefniadau ariannu yn y dyfodol.

1.12 Mae'r adroddiad hwn wedi'i gyfyngu i Gynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd yr Is-adran Fwyd yn y Rhaglen Datblygu Gwledig yn unig. Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun ar gael yn Atodiad B.

---

[4] Rhaglen Datblygu Gwledig - Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-2020: Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd - Nodiadau Cyfarwyddyd [Agorwyd: 08/042019].
[5] Brexit a'n tir: Diogelu dyfodol ffermio yng Nghymru [Agorwyd: 01/04/19].
[6] Adolygiad o gryfder ffermio: adroddiad terfynol [Agorwyd: 02/04/19].

2. Methodoleg

Nodau ac Amcanion

2.1 Nod cyffredinol y gwaith ymchwil hwn oedd adolygu effeithiolrwydd Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd yr Is-adran Fwyd. Roedd yr ymchwil yn ceisio deall y meysydd sy'n gweithio'n dda o fewn y cynllun yn ogystal â'r rheini sydd ddim yn gweithio cystal a lle gellid gwella cymorth Llywodraeth Cymru.

2.2 Dyma oedd prif amcanion y gwaith ymchwil hwn:

- holi beth wnaeth ysgogi'r ymatebwyr i ymgeisio am gymorth gan y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd;
- holi pa mor fodlon yw'r ymatebwyr â'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd;
- canfod pa feysydd sy'n gweithio'n dda o dan y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd a chanfod meysydd i'w gwella; a
- cheisio deall pa mor effeithiol yw'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd a helpu i flaenoriaethu a datblygu cynlluniau ariannu yn y dyfodol.

Cwmpas yr adolygiad

2.3 Roedd yr adolygiad hwn wedi'i gyfyngu i Gynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd yr Is-adran Fwyd yn y Rhaglen Datblygu Gwledig yn unig. Roedd yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar y busnesau hynny sydd wedi cael cymorth gan y cynllun neu sy'n cael cymorth ar hyn o bryd. Mae'n canolbwyntio'n fanwl ar yr effaith y mae'r cymorth wedi'i chael ar eu busnesau. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi cipolwg i ni o farn y busnesau ynghylch gwelliannau i unrhyw gynlluniau yn y dyfodol.

Dulliau

2.4 Defnyddiwyd y dulliau canlynol ar gyfer yr ymchwil hon:

- Arolwg ar-lein, a anfonwyd at bob sefydliad sydd wedi cael cymorth gan y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd. Cynhaliwyd yr arolwg rhwng 8 Tachwedd 2018 a 24 Ionawr 2019.
- Cyfweliadau dros y ffôn â sampl o randdeiliaid sydd wedi cael arian gan y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd. Cynhaliwyd y cyfweliadau hyn yn ystod mis Chwefror/Mawrth 2019.

- Cyfweliadau dros y ffôn â swyddogion cymorth busnes Llywodraeth Cymru (Rheolwyr Busnes - Bwyd) a Cywain. Cynhaliwyd y cyfweliadau hyn yn ystod mis Mawrth 2019.

2.5 Nod yr arolwg ar raddfa fach oedd ceisio casglu safbwyntiau a phrofiadau gan y busnesau a gafodd gymorth am y broses ymgeisio a'r buddsoddiad yn eu prosiectau. Cynhaliwyd cyfweliadau unigol ar ôl yr arolwg, er mwyn i'r ymchwilwyr allu holi'r busnesau am eu barn a'u profiadau yn fwy manwl. Roedd y cyfweliadau'n cynnwys cwestiynau am effaith y cymorth a syniadau ar gyfer gwella yn y dyfodol. Trafodir y dulliau a ddefnyddiwyd yn yr ymchwil hon yn fwy manwl isod.

Arolwg ar raddfa fach

2.6 Anfonwyd yr arolwg i gyfeiriadau e-bost 79 o gysylltiadau. Fodd bynnag, roedd rhai busnesau wedi rhoi mwy nag un cyfeiriad e-bost, felly 53 o fusnesau oedd cyfanswm terfynol sampl yr arolwg.

2.7 Roedd pob un o'r 53 o fusnesau naill ai'n cael cymorth gan y cynllun ar y pryd, neu wedi cael cymorth yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.[7] O blith sampl yr arolwg, derbyniwyd cyfanswm o 12 ymateb, gan roi cyfradd ymateb wael, sef 22 y cant.

2.8 Defnyddiwyd y feddalwedd arolwg, "Questback", i weinyddu'r arolwg, ac roedd yn fyw i ymatebwyr am gyfnod cychwynnol o bum wythnos (8 Tachwedd tan 13 Rhagfyr 2018).

2.9 Anfonwyd e-bost at y busnesau yn y sampl ar 8 Tachwedd 2018, yn eu gwahodd i gymryd rhan yn yr arolwg. Roedd dolen amlwg i'r arolwg ar-lein wedi'i chynnwys yn y neges e-bost. Anfonwyd e-bost atgoffa ar 23 Tachwedd 2018 (hanner ffordd drwy'r cyfnod) ac ar 3 Rhagfyr (10 diwrnod cyn i'r arolwg ddod i ben). Hefyd, roedd cydweithwyr polisi a rheolwyr busnes (bwyd) wedi bod yn anfon negeseuon e-bost ac yn ffonio'r ymatebwyr i'w hatgoffa a'u hannog i ymateb. Ar ôl trafod â'r tîm polisi, cafodd dyddiad cau'r arolwg ei ymestyn tan 24 Ionawr, rhag ofn mai natur dymhorol oedd yn gyfrifol am y gyfradd ymateb wael. Ond, ni lwyddodd hyn i wella'r gyfradd ymateb.

2.10 Roedd yr arolwg yn rhoi sylw i nifer o wahanol bynciau gan gynnwys; nodweddion busnes, rhesymau dros ofyn am gymorth, y broses ymgeisio, buddsoddiad y

[7] Mae rhagor o fanylion am y ceisiadau am gymorth gan y cynllun hyd at 4ydd Chwefror 2019 ar gael yn Atodiad A.

prosiect ac effaith y cynllun. Mae rhestr lawn o'r cwestiynau a ofynnwyd yn yr arolwg i'w gweld mewn copi o'r holiadur yn Atodiad C.

Cyfweliadau

2.11 Datblygwyd arweiniad bras i gyfweliadau er mwyn gallu edrych yn fwy manwl ar yr ymatebion a deall barn a phrofiadau busnesau'r cynllun yn well. Roedd yr arweiniad i gyfweliadau yn defnyddio'r amcanion thematig a oedd wedi'u rhestru yn y canllawiau ymgeisio (gweler paragraff 1.10). Hefyd, cyfrannodd y dadansoddiad o ganlyniadau'r arolwg at ddatblygu'r arweiniad i gyfweliadau, a oedd yn ceisio archwilio pynciau a oedd yn fwy addas i ddull ymchwil ansoddol.

2.12 Dyma'r pynciau a gafodd eu cynnwys:

- Cwestiynau ymarferol i gael gwell dealltwriaeth o'r hyn yr oedd busnesau'n gobeithio ei gyflawni o gymharu â'r hyn y maent wedi'i gyflawni;
- Effaith y cymorth gan y cynllun ar eu busnesau; yn rhai cadarnhaol a negyddol;
- Manteision a heriau cael cymorth gan y cynllun; a'r
- Syniadau sydd ganddynt ynghylch gwella'r cymorth gan y cynllun yn y dyfodol.

Mae rhestr lawn o'r cwestiynau a ofynnwyd yn y cyfweliad i'w gweld mewn copi o'r arweiniad i gyfweliadau yn Atodiad D.

2.13 Defnyddiwyd dull bwriadus i ganfod sampl o naw busnes i gymryd rhan mewn cyfweliadau ansoddol. Prif nod y strategaeth samplu oedd cael safbwyntiau gwahanol o bob un o'r pedwar rhanbarth yng Nghymru. Dewiswyd y sampl i gynnwys busnesau ar draws y sectorau busnes ac o wahanol ardaloedd daearyddol.

2.14 Roedd y sampl yn cynnwys amryw o fathau o fusnesau, gan gynnwys Dofednod, Wyau, Cynnyrch Llaeth, Cynnyrch wedi'u Pobi, Diodydd, Garddwriaeth a Phrydau Parod.

2.15 Mae Tabl 1 yn dadansoddi'r sampl yn ôl rhanbarth.

Rhanbarth	Nifer y busnesau
Gogledd	2
Gogledd-orllewin	1
De-orllewin	2
De-ddwyrain	2
Canolbarth	2

Tabl 1: Dadansoddiad o'r sampl o Fusnesau Bwyd yn ôl rhanbarth.

2.16 Dewiswyd sampl o'r rhestr o fusnesau a oedd yn sampl yr arolwg. Anfonwyd e-bost at y rhai a ddewiswyd ar gyfer eu cyf-weld, yn eu gwahodd i gymryd rhan yn yr ymchwil. Ffoniwyd pob un o'r naw busnes i'w hannog i gymryd rhan ac i drefnu dyddiad ac amser y cyfweliadau. Dywedodd saith o'r naw busnes a ddewiswyd ar gyfer eu cyf-weld yn wreiddiol y byddent yn cymryd rhan yn yr ymchwil. Dewiswyd cyf-weld â dau arall yn lle'r ddau na wnaeth ymateb i'r gwahoddiad.

2.17 Cynhaliodd dau o Ymchwilwyr Cymdeithasol Llywodraeth Cymru naw o gyfweliadau dros y ffôn rhwng mis Ionawr 2019 a mis Chwefror 2019. Cafodd busnesau ddewis cymryd rhan yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Roedd y gwahoddiadau wedi cael eu hanfon yn ddwyieithog. Fodd bynnag, ni chynhaliwyd yr un o'r naw cyfweliad drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd hyd y cyfweliadau'n amrywio o rhwng 18 a 45 munud. Cafodd pob cyfweliad ei recordio, a gofynnwyd am gydsyniad ar sail gwybodaeth gan bawb a oedd yn cymryd rhan.

2.18 Roedd amser y grŵp rhanddeiliaid yn hynod o brin oherwydd cyfnodau prysur y busnesau. Oherwydd y cyfyngiadau amser, ceisiwyd cwblhau'r cyfweliadau o fewn tua 20 munud. I wneud hyn, roedd gofyn ymateb i'r grŵp rhanddeiliaid, blaenoriaethu cwestiynau a theilwra cwestiynau i ganolbwyntio ar brofiadau unigolion.

2.19 Cynhaliwyd cyfweliadau manwl â swyddogion cymorth busnes Llywodraeth Cymru (rheolwyr busnes - bwyd) a Cywain. Roedd hyn er mwyn archwilio ymhellach y themâu a oedd yn codi yn y cyfweliadau â busnesau bwyd ac er mwyn cael

safbwynt mwy cyflawn. Yr un Ymchwilwyr Cymdeithasol o Lywodraeth Cymru a gynhaliodd y rhain hefyd, ym mis Mawrth 2019. Cynhaliwyd pob cyfweliad dros y ffôn. Roedd hyd y cyfweliadau'n amrywio o 25 i 30 munud.

2.20 Cyfrannodd y dadansoddiad cychwynnol o'r cyfweliadau â'r naw busnes at ddatblygu arweiniad i gyfweliadau ar gyfer swyddogion cymorth busnes.

2.21 Mae copi o'r arweiniad i gyfweliadau ar gyfer swyddogion cymorth busnes ar gael yn Atodiad E.

Rhesymeg

2.22 Nod y cyfweliadau lled-strwythuredig dilynol oedd rhoi cipolwg gwell a mwy manwl o farn a chanfyddiadau'r rhai sy'n derbyn grantiau. Datblygwyd arweiniad i gyfweliadau er mwyn sicrhau cysondeb ar draws pob cyfweliad, ond roedd hyblygrwydd i holi cwestiynau mwy manwl hefyd. Y ddau ymchwilydd cymdeithasol fu'n cynnal yr holl gyfweliadau. Roedd natur lled-strwythurol y cyfweliadau'n caniatáu iddynt holi'n fwy manwl. Ond, roeddent yn gofalu bod y rhai a oedd yn cael eu cyf-weld yn gallu cyfleu eu safbwyntiau'n annibynnol heb gael eu dylanwadu gan safbwyntiau'r ymchwilydd.

2.23 Penderfynwyd mai cyfweliadau dros y ffôn oedd y dull mwyaf priodol i'w ddefnyddio ar gyfer y cyfweliadau. Y rhain oedd yn gweddu orau â chapasiti'r ymchwilwyr (a oedd yn brin o amser ac yn gorfod cwblhau'r gwaith o fewn amserlen dynn) a'r ymatebwyr arfaethedig (gan nad oedd ganddynt lawer o amser ar gyfer cyfweliadau ac oherwydd eu bod mewn gwahanol ardaloedd yng Nghymru).

Dadansoddi

2.24 Llwythwyd yr arolwg i lawr i Microsoft Excel o feddalwedd yr arolwg ar-lein, Questback, er mwyn dadansoddi'r ymatebion. Trafodir themâu a chanlyniadau'r arolwg yn yr adroddiad hwn, ac mae nifer o siartiau wedi'u cynnwys yn y drafodaeth er mwyn tynnu sylw at y prif ganfyddiadau. Oherwydd y gyfradd ymateb wael, rhaid peidio â gorbwysleisio canfyddiadau'r arolwg; caiff hyn ei drafod yn fwy manwl o dan y pennawd 'cyfyngiadau' isod (gweler paragraff 2.26).

2.25 Cafodd y cyfweliadau eu trawsgrifio air-am-air a'u trosglwyddo i feddalwedd dadansoddi ansoddol (MAXQDA), lle'r oedd system godio'n cael ei datblygu, yn seiliedig ar gyfuniad o'r pynciau a drafodwyd yn ystod cam arolwg y dadansoddi, yr arweiniad i gyfweliadau a'r themâu a oedd yn deillio o'r data. Trafodir y

canfyddiadau yn yr adroddiad hwn, ac mae enghreifftiau o ddyfyniadau wedi'u cynnwys i dynnu sylw at bwyntiau allweddol.

Cyfyngiadau

2.26 Roedd y gyfradd ymateb i'r arolwg ar-lein yn wael. Roedd hyn yn golygu mai nifer bychan iawn o ymatebion a gafwyd i'r rhan fwyaf o'r cwestiynau; felly dylid bod yn ofalus i beidio â gorbwysleisio canfyddiadau'r arolwg. Mae'r gyfradd wael yn ein hatal rhag siarad yn gyffredinol am ganlyniadau'r arolwg, a dylid bod yn ofalus wrth eu dehongli. Roedd y sampl ar gyfer yr arolwg ar-lein yn hunan-ddewisol. Felly, gallai barn ac atebion y 12 ymatebydd fod yn wahanol i atebion y rhai hynny na wnaeth ymateb i'r arolwg. Mae sampl y rhai sy'n cael eu cyf-weld hefyd yn weddol fychan o gymharu â nifer y busnesau sy'n cael cymorth gan y cynllun. Felly, nid yw'r canfyddiadau, o reidrwydd, yn cynrychioli pob busnes bwyd.

2.27 Defnyddiwyd dull bwriadus i ganfod y sampl o naw o randdeiliaid. Er bod hyn yn golygu bod cynrychiolaeth o bob rhanbarth, gallai barn ac atebion y naw a gafodd eu cyf-weld fod yn wahanol i atebion y rheini na chafodd eu cyf-weld.

2.28 Hefyd, nid oedd yr adolygiad wedi cynnwys busnesau a oedd wedi ymgeisio ar gyfer y cynllun, ac yna naill ai wedi tynnu eu cais yn ôl neu wedi cael eu gwrthod. Ni chasglwyd barn y grŵp rhanddeiliaid penodol hwn, a gallai safbwyntiau a phrofiadau'r grŵp hwn fod yn wahanol. Dylid ystyried y cyfyngiadau uchod wrth adolygu canfyddiadau'r adolygiad, a gyflwynir isod.

3. Canfyddiadau

3.1 Mae'r bennod hon yn cynnwys canfyddiadau'r arolwg ar-lein a'r cyfweliadau ansoddol a gynhaliwyd gyda busnesau a swyddogion cymorth busnes o Lywodraeth Cymru (rheolwyr busnes - bwyd) a Cywain.

3.2 Gyda'i gilydd cafwyd 12 ymateb i'r arolwg. Mae'r gyfradd ymateb hon yn arbennig o isel (22 y cant), felly er mwyn sicrhau eglurder ac er mwyn peidio â gorbwysleisio unrhyw ganfyddiadau, mae cyfanswm nifer yr ymatebion i gwestiwn penodol yn cael ei nodi'n llawn pan gaiff y canfyddiadau eu trafod.

3.3 Cynhaliwyd naw o gyfweliadau lled-strwythuredig gyda busnesau bwyd, cafodd dau eu cynnal gyda rheolwyr busnes (bwyd), a chafodd dau arall eu cynnal gyda swyddogion cymorth busnes o Cywain. Cafodd canfyddiadau'r arolygon a'r cyfweliadau eu dadansoddi ar wahân fel dwy dasg wahanol, ac mae'r canlyniadau wedi cael eu crynhoi er mwyn creu'r drafodaeth a gyflwynir yn y bennod hon.

3.4 Yn y drafodaeth hon ynghylch y canfyddiadau, caiff y bobl hynny a ymatebodd i'r arolwg ar-lein eu galw yn 'ymatebwyr' arolwg, ac ar gyfer y cyfweliadau lled-strwythuredig, caiff y rheini a gafodd eu cyfweld eu galw yn 'unigolion a gafodd eu cyfweld'.

3.5 Caiff y prif ganfyddiadau o'r ymatebion i'r arolwg a'r cyfweliadau eu trafod isod.

Canfyddiadau o'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd

3.6 At ei gilydd, roedd y busnesau bwyd a oedd wedi derbyn cymorth gan y cynllun yn gadarnhaol o'i blaid. Dywedodd nifer o bobl a gafodd eu cyfweld eu bod yn fodlon iawn ar yr hyn roeddent wedi'i gyflawni o ganlyniad i'r cynllun.

3.7 Yn y cyfweliad, gofynnwyd beth oedd wedi gweithio'n dda gyda'r cynllun. Roedd y naw a gymerodd ran mewn cyfweliad wedi rhoi nifer o ymatebion cadarnhaol; y prif feysydd a nodwyd oedd twf busnes a chymorth gan Lywodraeth Cymru. Mae enghreifftiau o'r fath yn cynnwys:

'Rhoddodd gyllid ychwanegol i ni a oedd yn golygu ein bod wedi gallu cyflymu twf ein busnes'

'Mae wedi cael ei ddylunio mewn ffordd sy'n gosod y seiliau ar gyfer tyfu eich busnes'

'Y cymorth a chael rhywun ar ben arall y ffôn i siarad â nhw'

‘[Mae'r cynllun wedi golygu ein bod wedi gallu] darparu gwaith yn yr ardal leol’

‘[Cafodd y grant] ei ddyfarnu am yr union reswm a nodwyd...roedd yn gam cadarnhaol mawr i helpu ein cwmni’

‘Fydden ni ddim wedi gallu ehangu’r busnes heb y cymorth’

‘Mae’r grant wedi golygu ein bod yn rhan fwy o'r farchnad’

3.8 Yn yr un modd, pan ofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg am brif lwyddiannau’r cynllun, nodwyd amrywiaeth o sylwadau cadarnhaol:

‘Heb y cymorth, fyddwn i ddim wedi gallu gwneud y newid mawr i gynhyrchu mwy a hwyluso twf parhaus’

‘Mae wedi ein helpu i greu swyddi mewn ardal dlawd iawn o Gymru’

‘Ni fyddem wedi sefydlu’r busnes yng Nghymru heb hwn’

[Heb y grant] ‘byddai’r cwmni wedi aros yn ei unfan’

‘Mae'r grant wedi bod yn help mawr i ni wrth i ni dyfu ac ehangu’

3.9 Gofynnwyd i’r rheini a gafodd gyfweliad pam eu bod wedi gwneud cais am gymorth. At ei gilydd, roedd cymhelliant y rheini a gafodd gyfweliad dros wneud cais yn gysylltiedig â’u hangen am gymorth ariannol er mwyn tyfu ac ehangu eu busnesau. Wrth holi am eu cymhelliant dros wneud cais am gyllid, dywedodd un person a gafodd gyfweliad, ‘Arian...yn yr un modd â nifer o fusnesau sy’n cychwyn, mae’r cyfan yn ymwneud â chael digon o gyfalaf er mwyn sefydlu eich busnes yn iawn’.

3.10 Roedd yr arolwg hefyd yn holi pobl am eu cymhelliant dros wneud cais am gymorth. Fel sy’n cael ei ddangos yn siart 1.1, y rheswm mwyaf cyffredin dros chwilio am gymorth oedd ‘cyngor strategol i helpu fy musnes i dyfu’n broffidiol’ (10). Yn dynn ar ei sodlau roedd ‘cyngor strategol i helpu i dyfu cynhyrchiant fy musnes’ (8).

Siart 1.1: Cymhelliant dros ymgeisio am gymorth gan y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd.



Nifer yr ymatebwyr (n=12, cwestiwn gyda sawl ateb)

3.11 Dywedodd nifer o bobl a gafodd eu cyfweld hefyd na fyddai eu busnes yn y sefyllfa y mae heddiw heb gymorth y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd. Roeddent yn dweud bod y cynllun wedi bod yn hanfodol er mwyn tyfu ac ehangu eu busnes.

3.12 Roedd yr arolwg a'r cyfweliad hefyd yn holi a oedd pobl wedi ystyried ffynonellau eraill o gyllid cyn gwneud cais am y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd.

Siart 1.2: Ffynonellau eraill o gyllid.



Nifer yr ymatebwyr (n=12)

3.13 Mae siart 1.2 yn dangos bod 8 (o 12) o ymatebwyr yr arolwg wedi ystyried ffynonellau eraill o gyllid.

3.14 Dywedodd nifer yn y cyfweliadau eu bod hefyd wedi ystyried ffynonellau eraill o gyllid. Dywedodd un a gymerodd ran yn y cyfweliadau mai'r broblem gyda ffynonellau eraill o gymorth ariannol oedd nad oeddent yn ddigon mawr neu eu bod yn 'gysylltiedig â banciau'.

3.15 Y canfyddiad cyffredinol oedd bod prinder o ddewisiadau eraill addas ar gael. Dywedodd un mewn cyfweliad ei bod hi'n anodd iawn i fusnesau bach ddod o hyd i gymorth a dywedodd eu bod wedi 'mynd ar drywydd pob llwybr ariannu'. Roedd y rheini a gymerodd ran yn y cyfweliadau yn credu bod y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd yn llenwi bwlch gan nad oedd llawer o ddewisiadau cyllid addas ar gael.

3.16 Hefyd, soniodd un Rheolwr Busnes (Bwyd) am yr angen am y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd, gan ddweud bod y cynllun yn 'boblogaidd dros ben' gyda mwy o geisiadau nag y gellid eu cefnogi ym mhob rownd. Dywedodd mai un o gryfderau'r cynllun ydy lefel uchel yr ymgysylltu rhwng busnesau yng Nghymru a'r cynllun. Dywedodd fod busnesau Cymru yn teimlo bod y Llywodraeth 'o blaid busnesau' a'u bod yn manteisio'n llawn ar y cymorth sydd ar gael.

3.17 Dywedodd un swyddog cymorth hefyd 'does dim pot arall o arian ar gael ac rwy'n falch eu bod wedi creu hwn'. Dywedodd fod y cynllun *'yn bodoli'* yn agwedd gadarnhaol gan nad oes llawer o ddewisiadau cyllid eraill ar gael.

3.18 Ar ben hynny, gofynnwyd i fusnesau pam eu bod wedi dewis y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd yn hytrach na ffynonellau eraill o gymorth. At ei gilydd dywedodd y rheini a gymerodd ran yn y cyfweliadau fod y cynllun yn addas i anghenion eu busnes. Roedd ymatebion tebyg yn cynnwys:

Roedd y cynllun wedi cael ei 'deilwra i'r hyn roedden ni ei angen'

Roedd y cynllun 'yn cyd-fynd â'r meini prawf roedden ni eu hangen er mwyn i'n busnes ddatblygu'

'Doedd dim cyllid arall yn cyd-fynd â'r hyn roedden ni ei angen i dyfu'.

3.19 Dywedodd un rheolwr busnes (bwyd) mai prif gryfder y cynllun ydy lefel y grant (40 y cant). Dywedodd fod cymryd 40 y cant oddi ar gostau'r prosiect wrth fuddsoddi mewn offer/peiriannau newydd yn 'ei wneud yn fwy hyfyw o lawer'. Pwysleisiodd

hefyd nad oes angen ad-dalu'r cymorth, 'fel ddywedodd rhywun wrthyf fi, mae'n arian am ddim'.

3.20 Dywedodd swyddog cymorth o Cywain hefyd fod lefel y grant 'yn gweithio'n dda iawn i ficro-gynhyrchwr' a bod 40 y cant yn 'lot fawr o arian' a'i bod yn werth gwneud cais amdano.

Cymorth/Cyfathrebu

3.21 Gofynnwyd i'r rheini a gymerodd ran yn y cyfweliadau sut byddent yn disgrifio'r gefnogaeth gan swyddogion Llywodraeth Cymru. At ei gilydd, roedd y sylwadau'n gadarnhaol;

'Da iawn. Gwych'

'Defnyddiol, roedd wedi ein harwain, da iawn'

'Roedd ein swyddog yn dda iawn, ac roedd wedi ein rhoi ar ben ffordd'

'Fydden ni ddim wedi gallu gwneud beth wnaethon ni hebddyn nhw'

'Mae'r gefnogaeth wedi bod yn rhagorol; rydyn ni wir wedi mwynhau gweithio gyda nhw'

'O'r radd flaenaf'

3.22 Cafodd hyn ei adlewyrchu yn yr ymatebion i'r arolwg hefyd. Wrth holi i ba raddau roeddent yn cytuno neu'n anghytuno eu bod yn fodlon â'r gefnogaeth a gawsant yn gyffredinol, roedd 9 (o 11) o'r ymatebwyr yn cytuno eu bod yn fodlon â'r gefnogaeth yn gyffredinol.

Siart 1.3: Bodlonrwydd â'r gefnogaeth gan swyddogion Llywodraeth Cymru

Ar y cyfan, roeddwn yn fodlon â'r cymorth a gefais



Nifer yr ymatebion (n=12)

3.23 Yn yr un modd, roedd dau a ymatebodd i'r arolwg wedi rhoi sylwadau ynghylch y cyfathrebu a'r gefnogaeth roeddent wedi'u cael gan swyddogion Llywodraeth Cymru yn ystod y broses. Wrth ddelio â swyddogion, rhoddwyd argraff gadarnhaol gan eu bod yn 'gymwynasgar ac yn gefnogol' ac at ei gilydd roedd y gefnogaeth a gafwyd yn 'dda iawn o'r dechrau i'r diwedd'.

3.24 Dywedodd swyddogion cymorth Cywain hefyd fod y rheolwyr busnes (bwyd) yn 'wych' ac 'wir yn helpu busnesau drwy'r broses'.

3.25 Dywedodd y rhan fwyaf o'r rheini a gymerodd ran yn y cyfweliadau fod cael un person cyswllt [rheolwr busnes (bwyd)] wedi gweithio'n dda. Mae'r rheolwyr busnes (bwyd) yn cefnogi'r busnesau yn eu rhanbarth o ddydd i ddydd. Dywedodd fwy nag un a gymerodd ran yn y cyfweliadau fod hyn 'wedi gweithio'n wych'. Wrth holi pam ei fod wedi gweithio cystal, y prif bethau a nodwyd oedd ei bod hi'n hawdd cael gafael ar y swyddogion cymorth a'r cysondeb o gael un prif bwynt cyswllt.

'Roedd yn golygu bod un person penodol y gallwn i droi ato a dweud, edrycha mae angen i ni ychwanegu hyn neu mae'r broblem yma wedi codi...ac ro'n i bob amser yn troi at yr un person;

'Cael rhywun ar ben arall y ffôn y gallech chi siarad â nhw, a'ch bod yn gwybod bod [rheolwr busnes (bwyd)] bob amser yn codi'r ffôn, felly roedd y rheolwr yno bob amser i'ch cefnogi ac i siarad â chi'

'Roedden ni'n cydweithio â [rheolwr busnes (bwyd)], roedd yn gefnogol iawn ac yn barod i helpu, [rheolwr busnes (bwyd)] oedd yr un pwynt cyswllt o'r dechrau i'r diwedd;

3.26 Roedd y cysondeb o gael un prif bwynt cyswllt yn elfen gadarnhaol a ddaeth i'r amlwg yn y naw cyfweliad. Dywedwyd bod cael 'swyddog penodol i ddod i helpu' yn ddefnyddiol dros ben.

Effeithiau

3.27 Mae un o amcanion yr ymchwil (gweler paragraff 1.2) yn ymwneud ag effeithiau'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd ar fusnesau bwyd a oedd wedi cael cymorth drwy'r cynllun. Mae'r adran hon yn crynhoi effeithiau'r cynllun.

3.28 I ddechrau, gofynnwyd yn y cyfweliadau beth roeddent yn *disgwyl* ei gyflawni. Roedd cwestiwn dilynol yn gofyn beth roeddent wedi'i gyflawni *go iawn*. Roedd hyn yn dangos effeithiau'r cynllun.

Y prif ganfyddiad oedd bod y naw a gafodd eu cyfweld wedi dweud eu bod wedi cyflawni'r hyn roeddent wedi disgwyl ei gyflawni gyda'r cynllun.

'Do - 100 y cant'

'Roedden ni wedi cyflawni mwy na'r hyn roedden ni wedi bwriadu ei wneud'

'Rydyn ni wedi rhagori ar ein disgwyliadau'

Roedd enghreifftiau o'u disgwyliadau a'u cynlluniau'n cynnwys symud i eiddo newydd, prynu offer newydd ac adeiladu cyfleusterau newydd.

3.29 Pan ddywedwyd mewn cyfweliadau nad oedd rhai amcanion wedi cael eu cyflawni'n llwyr (fel mwy o drosiant) roedd hyn yn cael ei briodoli i bwysau allanol a oedd y tu allan i reolaeth y cynllun. Roedd rhai o'r pwysau yma'n cynnwys costau cynyddol deunyddiau crai a cholli cwsmeriaid allweddol.

3.30 Dywedodd ymatebwyr yr arolwg fod eu hanghenion prosiect nhw wedi cael eu cyflawni hefyd. Wrth holi i ba raddau roedd eu hanghenion prosiect wedi cael eu diwallu, roedd 10 (o 12) yn cytuno.

Siart 1.4: Anghenion prosiect a gyflawnwyd

Ar y cyfan, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod anghenion eich busnes wedi'u bodloni drwy gymorth y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd?



Nifer yr ymatebwyr (n=12)

3.31 Gofynnwyd hefyd i'r ddau reolwr busnes (bwyd) i ba raddau roeddent yn meddwl bod y busnesau yn eu rhanbarth wedi cyflawni eu hamcanion prosiect. Dywedodd un mewn cyfweliad 'fod y mwyafrif helaeth yn [cyflawni eu hamcanion prosiect]'. Eglurodd mai 'amgylchiadau a oedd y tu hwnt i'w rheolaeth nhw a rheolaeth y busnesau' oedd y rheswm bod nifer bach 'wedi methu'. Un enghraifft oedd y 'prosiectau wyau' a oedd wedi 'methu oherwydd amodau'r farchnad; lle'r oedd cynigion contractau wedi 'diflannu'n llwyr'. Yn yr achosion hyn, roedd rhai busnesau wedi gallu gohirio'r grant er mwyn iddynt dderbyn y cymorth ar adeg a fydd yn fwy buddiol i'r busnes.

3.32 Yn y cyfweliadau â busnesau bwyd, gofynnwyd yn fwy penodol am yr effeithiau ar eu busnesau o ganlyniad i'r cynllun. Y pedair brif thema a drafodwyd oedd; cyflogaeth, hyfforddiant, trosiant a chynaliadwyedd. Caiff y prif ganfyddiadau eu cyflwyno yma o dan y pedwar maes yma.

Cyflogaeth

3.33 Soniodd y rhan fwyaf yn y cyfweliadau fod cyflogaeth wedi cynyddu o ganlyniad i'r cymorth gan y cynllun. Soniodd nifer hefyd eu bod wedi rhagori ar eu targed ar gyfer nifer y gweithwyr newydd.

3.34 O blith y rheini a oedd wedi cynyddu eu cyflogaeth, roedd y rhan fwyaf o'r gweithwyr newydd wedi cael eu cyflogi ar sail amser llawn. Mewn un cyfweliad dywedwyd 'maen nhw i gyd yn amser llawn ac rydyn ni'n edrych ar ymestyn hynny ymhellach, gyda 30 neu 40 aelod arall o staff fwy na thebyg'. Dywedodd fod y cymorth gan y cynllun wedi'u galluogi i gyflogi mwy o weithwyr amser llawn.

3.35 Soniodd rhai eraill a gymerodd ran mewn cyfweliadau eu bod hefyd wedi cynyddu eu cyflogaeth;

'Rydyn ni bedwar person oddi wrth y targed roedden ni wedi'i osod, dwi'n meddwl mai 96 neu 92 neu 100 o bobl oedd ein targed...dwi'n credu ein bod ni'n brin o bedwar ar hyn o bryd, felly rydyn ni bron yno'

'Ers dechrau'r prosiect yma rydyn ni nawr yn cyflogi tri o bobl felly mae hynny'n ganlyniad da'

'Cyn y grant roedd gennym ni tua wyth o swyddi ac nawr mae gennym ni 26 o swyddi'

‘Ein targed oedd saith o weithwyr newydd ar gyfer yr ehangu ac rwy’n meddwl ein bod ni dros ddeg ar hyn o bryd...ac rydyn ni’n chwilio am ragor o bobl’.

3.36 Dywedodd un mewn cyfweliad fod y cynllun wedi ‘cyflymu cyflogaeth’ gan eu bod yn teimlo y byddent wedi cyflogi nifer tebyg heb y cynllun, ond ‘byddai hynny dros nifer o flynyddoedd’.

3.37 Soniodd y rhan fwyaf o’r rheini a gymerodd ran yn y cyfweliadau am lefelau amrywiol sgiliau’r gweithwyr newydd. Mae enghreifftiau o'r gweithwyr newydd yn amrywio o beirianwyr i rolau Sicrhau Ansawdd ar lawr y ffatri a phobl sy’n pacio. Dyma rai enghreifftiau penodol a roddwyd;

‘Mae gennym ni beirianwyr, felly maen nhw’n fedrus iawn’

‘Y bobl fedrus ydy’r rheini sy’n delio ag ochr dechnegol y bragu, a byddai’r bobl led-fedrus yn cludo’r cynnyrch ac yn gweithio ar lawr y ffatri’

‘Mae gennym ni bobwyr crefftus medrus...a swyddogion pacio hefyd’

‘Mae’n gymysgedd a dweud y gwir, mae llawer ohonyn nhw’n gweithio’r peiriannau, mae rhai ohonyn nhw’n pacio’

3.38 Dim ond un a gymerodd ran mewn cyfweliad a ddywedodd na fu unrhyw gynnydd mewn cyflogaeth ers dechrau’r cynllun. Roedd hyn o ganlyniad i golli eu cwsmer mwyaf. Drwy gydol y cynllun maent wedi ailennill pocedi o fusnes, gan greu incwm sy’n fwy sefydlog. Dywedodd yr unigolyn yn y cyfweliad;

‘Rydyn ni wedi dod yn ein blaenau’n dda ond o ran cyflogaeth ac o ran trosiant, ar ddiwedd eleni bydd hi’n debyg iawn i ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf a’r flwyddyn flaenorol. Os na fydden ni wedi colli ein cwsmer mwyaf, bydden ni wedi cynyddu’r naill a’r llall yn sylweddol’.

Hyfforddiant

3.39 Dywedodd rhai yn y cyfweliadau eu bod yn cynnig rhagor o hyfforddiant o ganlyniad i'r cymorth gan y cynllun. Dywedodd rhai mewn cyfweliadau fod hyfforddiant ‘yn rhan’ o’r cynllun grant, a dywedodd eraill eu bod nawr yn gallu cynnig rhagor o hyfforddiant.

3.40 Dywedodd un mewn cyfweliad eu bod nawr yn gallu gwneud cais am grantiau eraill i dalu am ragor o hyfforddi a datblygu; 'mae'r cynllun wedi caniatáu i ni ymgeisio am fathau o ffynonellau cyllid sydd ar gael i gyflogi staff ac i wneud gwaith ymchwil a datblygu'.

3.41 Roedd rhywun arall a gafodd gyfweliad yn gweld hyfforddiant fel rhan angenrheidiol o'r cyllid grant er mwyn i'r prosiect 'allu cychwyn arni'. Dywedodd na fyddai eu gweithwyr newydd wedi gallu gwneud y gwaith heb hyfforddiant ychwanegol, felly 'roedden nhw wedi gwella eu sgiliau ac rydyn ni wedi cael tri o weithwyr da'.

3.42 Mewn cyfweliad arall, rhoddwyd enghreifftiau o'r hyfforddiant penodol maent wedi'i wneud gan gynnwys hyfforddiant tryciau fforch-godi a chyrsiau rheoli. Dywedodd hefyd eu bod yn gwneud 'llawer mwy o hyfforddiant mewnol'.

3.43 Dywedodd dau mewn cyfweliad fod ganddynt weithluoedd sefydlog iawn. Dywedodd un fod eu gweithwyr wedi bod gyda nhw ers hyd at 20 mlynedd ac y byddent wedi cael eu hyfforddi'n dda iawn 'petai'r prosiect wedi digwydd ai peidio'. Roedd y llall yn pwysleisio hyfforddiant mewnol, gan ddweud 'mae gennym ni fwy o amser i'w dreulio ar ein gweithwyr i'w helpu i wneud eu gwaith yn well'.

3.44 Dywedodd dau a gafodd gyfweliad nad oeddent o bosibl wedi cynyddu faint o hyfforddiant roeddent yn ei gynnig. Wrth eu holi ymhellach, roeddent yn dweud bod y cynnydd mewn swyddi wedi bod ar lefel sgiliau isel gan fwyaf.

Trosiant

3.45 Roedd bron i bawb (8 o 9) a gafodd gyfweliad wedi dweud bod eu trosiant wedi cynyddu o ganlyniad i'r cynllun. Wrth eu holi'n uniongyrchol am gynyddu eu trosiant, cafwyd ymateb cadarnhaol gan nifer yn y cyfweliadau.

'Wel roedden ni'n dechrau gyda dim ac mae'n debyg ein bod yn berchen ar oddeutu £30 miliwn nawr'

'Ydy, mae wedi treblu'

'Ydy, cyn pen cyfnod o 18 mis / 2 flynedd'

'Ydy, mae wedi cynyddu ein trosiant; dwi'n meddwl y dylen ni fod yn cyrraedd £1.5 miliwn eleni'

3.46 Dywedodd un mewn cyfweliad fod eu ‘trosiant tua £3.5 miliwn cyn y cynllun ond ei bod hi’n anodd cael y capasiti i wneud hynny’. Nawr, o ganlyniad i’r cynllun mae ganddynt gapasiti i ‘wneud tua £10 miliwn’.

3.47 Fodd bynnag, dywedodd un a gafodd ei gyfweld nad oeddent wedi cynyddu eu trosiant, yn rhannol o ganlyniad i golli eu cwsmer mwyaf, ond hefyd oherwydd cynnydd yng nghostau eu deunyddiau crai. Maent nawr wedi gallu ailennill y sylfaen hon o gwsmeriaid.

Cynaliadwyedd

3.48 Dywedodd bron i bawb (8 o 9) a gafodd eu cyfweld eu bod wedi cynyddu eu cynaliadwyedd amgylcheddol mewn ryw ffordd. Y prif themâu oedd effeithlonrwydd ynni (goleuadau LED, paneli solar), effeithlonrwydd gwastraff (prosiectau ailgylchu, defnyddio llai o blastig) a chynnal newidiadau yn y tymor hir.

Effeithlonrwydd ynni

3.49 Dywedodd nifer yn y cyfweliadau fod yr offer diweddaraf nawr ganddynt fel ‘yr offer lladd-dy diweddaraf yn y Deyrnas Unedig’, ac ‘mae llawer o’r peiriannau’n fodern iawn’. Dywedwyd bod yr offer newydd yma'n defnyddio ynni’n fwy effeithlon na’r fersiynau hŷn.

3.50 Yn yr un modd, dywedodd un person mewn cyfweliadau eu bod wedi gosod ‘stribedi golau dydd LED sy’n gallu goleuo’r adeilad cyfan i safon uchel iawn a hynny am gostau rhedeg isel iawn’. Dywedodd hefyd eu bod yn bwriadu gosod paneli solar yn y dyfodol ar do’r adeilad maent newydd ei adeiladu. O ganlyniad i’r cymorth gan y grant, maent nawr yn berchen ar eu hadeilad newydd sy’n golygu ei bod hi’n haws o lawer iddynt wneud newidiadau sy’n amgylcheddol gynaliadwy nag oedd hi pan roeddent yn lesio. Cyflawnwyd hyn o ganlyniad i'r cynllun.

3.51 Dywedodd rhywun arall a gafodd gyfweliad eu bod yn ‘defnyddio ynni’r haul’ ac yn ‘cynaeafu dŵr’, gan ddweud heb gymorth y cynllun y ‘byddai wedi bod yn anodd iawn bod yn y sefyllfa rydyn ni ynddi heddiw, wel, byddai wedi bod yn amhosibl’.

3.52 Dywedodd un arall mewn cyfweliad eu bod wedi gosod set o rewgelloedd mewnol modern a oedd yn disodli hen rewgelloedd aneffeithlon. Mae’r rhewgelloedd newydd yn defnyddio nwy oeri gwahanol sy’n ‘fwy ecogyfeillgar’.

Effeithlonrwydd gwastraff

3.53 Dywedodd ambell un yn y cyfweliadau eu bod wedi newid eu cynlluniau gwaredu gwastraff. Dyma nifer o enghreifftiau:

'Mae'r cymorth gawson ni wedi bod yn grêt oherwydd gallwch chi ddefnyddio'r polisïau ailgylchu ac amgylcheddol'

'Bydd yr hambyrddau plastig [ar gyfer wyau] yn para 15 mlynedd, felly drwy ddefnyddio'r rhai plastig rydyn ni'n defnyddio llai o ddeunydd tynlapio...felly rydyn ni wedi lleihau ein hôl troed carbon plastig ddwy ran o dair....rydyn ni'n sicr wedi lleihau faint o blastig rydyn ni'n ei ddefnyddio'

'Fel rhan o'r prosiect rydyn ni'n ailgylchu gwastraff a dŵr, rydyn ni wedi cofrestru gydag Ailgylchu Cymru, ar gyfer ein holl stwff bron, felly'r unig wastraff sydd gennym mewn gwirionedd ydy deunyddiau pecynnu fel blychau cardfwrdd ac mae'r rheini i gyd yn cael eu hailgylchu'

3.54 Dywedodd un mewn cyfweliad fod ganddynt flaenoriaethau eraill yn wreiddiol fel cynyddu cynhyrchiant, ac nad oeddent wedi gwella eu cynaliadwyedd eto. Dywedodd eu bod 'am fynd amdani gyda hyn' nawr gan fod y cynllun wedi'u galluogi i brynu adeilad mae modd ei addasu er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni.

Cynaliadwyedd y cynllun - manteision tymor hir

3.55 Ar ôl trafodaethau ynghylch y newidiadau roedd pobl wedi'u gwneud, o ran cynyddu eu hyfforddiant a gwella eu cynaliadwyedd, gofynnwyd os oeddent yn meddwl ei bod hi'n debygol y byddai'r newidiadau hyn yn cael eu cynnal. Cafwyd ymateb cadarnhaol gan bawb (y rheini roedd hi'n berthnasol gofyn iddynt):

'Byddant yn bendant, ddim yn mynd i newid o gwbl'

"Yn sicr, byddant, rydyn ni'n tyfu ac mae gennym berthynas wych â nhw [cwsmeriaid], gallwn gynyddu ac ehangu i feysydd newydd nad oedden yn bosibl o'r blaen...mae hynny'n gynaliadwy i gyd yn sicr'

'100 y cant yn cael eu cynnal, nawr fod y staff wedi cael eu hyfforddi mae'n hawdd iawn cadw'r cynlluniau newydd hyn i fynd'

Effaith Leol

3.56 Yn y cyfweliadau gofynnwyd hefyd a oedd eu busnesau nawr yn gallu ychwanegu gwerth at gadwyni cyflenwi lleol o ganlyniad i'r cynllun. Dywedodd y rhan fwyaf fod eu busnesau'n cael effaith gadarnhaol ar eu hardaloedd lleol. Roedd y canfyddiadau'n perthyn i ddau gategori; creu swyddi lleol a defnyddio mwy o gyflenwyr lleol.

Swyddi lleol

3.57 Dywedodd un mewn cyfweliad fod pawb a oedd wedi ymwneud â'r prosiect drwy gydol y cyfnod wedi dod o'r ardal leol, 'dwi'n meddwl bod pob adeiladwr roedden ni wedi'i ddefnyddio neu bawb a oedd ar y cynllun yn lleol, felly o'r plastrwr i'r adeiladwr i'r rheini a oedd yn gosod y ffenestri, i ddyn y lloriau, y peintiwr, roedd pawb yn lleol'. Roedd hefyd yn pwysleisio effaith hyn ar yr ardal leol gan ei fod yn 'hwb enfawr i'r dref'.

3.58 Dywedodd rhywun arall mewn cyfweliad fod y gwaith o ddylunio eu deunyddiau pecynnu wedi cael ei is-gontractio i gwmnïau lleol ac 'felly mae rhywun lleol yn elwa ond maen nhw'n elwa oherwydd ein bod yn gallu gwneud hynny, gallwn ei wneud oherwydd y grant, felly mae'n effaith ganlyniadol mewn ffordd'. Mae hyn yn dangos sut mae'r grant wedi galluogi creu gwaith/contractau lleol.

Cyflenwyr lleol

3.59 Dywedodd un mewn cyfweliad eu bod yn defnyddio cynnyrch lleol pan fydd hi'n bosibl gwneud hynny, er enghraifft 'rydyn ni'n defnyddio cigydd sydd prin deg metr i ffwrdd oddi wrthym ni ac rydyn ni'n defnyddio iogwrt sy'n dod o bum munud i fyny'r lôn'.

3.60 Nid oedd rhai yn y cyfweliadau o reidrwydd yn defnyddio cyflenwyr o Gymru, serch hynny roeddent yn dweud eu bod yn defnyddio 'cynnyrch o Brydain'. Roedd y rhesymau dros beidio â defnyddio cynnyrch o Gymru yn cynnwys; dim cyflenwr cyfatebol yng Nghymru ac anghenion penodol am gynhwysion rhanbarthol eraill. Er enghraifft, dywedodd un mewn cyfweliad fod un cynnyrch a oedd ganddynt yn Gernywaidd ac felly bod yn rhaid iddynt gael eu deunyddiau crai gan ffermwyr yng Nghernyw. Dywedodd 'rydyn ni'n tueddu i gael cymaint â phosibl o'n nwyddau yn y DU, ychydig iawn fyddwn ni'n ei gael o'r tu allan i'r DU'.

3.61 Un o amodau'r cynllun oedd ei bod yn rhaid i fusnesau brynu 90 y cant o'u deunyddiau crai o'r Undeb Ewropeaidd. Dywedodd un mewn cyfweliad eu bod 'nawr yn prynu 99 neu 98 o'u cynhwysion o'r Undeb Ewropeaidd'. Dywedodd un arall eu bod yn 'gwneud tua 93 y cant'.

3.62 Soniodd rhywun arall mewn cyfweliad am fwy o fudd lleol gan ddweud bod y cynnydd yn eu capasiti cynhyrchu wedi arwain at 'fantais uniongyrchol i gynhyrchwyr cynradd' yng Nghymru. Roedd yn pwysleisio eu bod yn teimlo bod 'perthynas uniongyrchol rhwng ein llwyddiant a'n cyfraniad at y gymuned ffermio yng Nghymru'.

3.63 At ei gilydd, dywedodd y rheini a gymerodd ran mewn cyfweliadau eu bod yn defnyddio mwy o gyflenwyr lleol ac o Gymru o ganlyniad i'r cynllun;

'Rydyn ni'n defnyddio llawer iawn o gig eidion Cymru a mwy nawr nag erioed o'r blaen'

'Rydyn ni nawr yn defnyddio mwy o gynnyrch o Gymru nag erioed o'r blaen'

'Os gallwn gael gafael arno yng Nghymru, byddwn yn ei brynu o Gymru'.

Darparu i farchnadoedd lleol

3.64 Ar ben hynny, soniodd nifer yn y cyfweliadau fod eu busnesau'n ychwanegu at gadwyni cyflenwi lleol drwy gyflenwi eu cynnyrch i farchnadoedd lleol. Soniodd nifer a gymerodd ran yn y cyfweliadau droeon am 'gynnyrch o Gymru' o 'ffermydd yng Nghymru' a'u diddordeb mewn creu 'brand Cymru'.

3.65 Dywedodd un mewn cyfweliadau fod eu cadwyn gyflenwi 'mor fyr â phosib' oherwydd eu bod wedi'u lleoli mewn tref leol a'u bod yn 'cyflenwi i'r bobl sydd yno, caffis, siopau lleol ac ati'.

3.66 I'r gwrthwyneb, soniodd eraill a gymerodd ran yn y cyfweliadau eu bod yn cyflenwi i farchnadoedd sydd yn bellach i ffwrdd o lawer, fel Canolbarth Lloegr a'r Alban. Dywedodd un person mewn cyfweliadau mai 'un o'r prif nodau oedd gallu ehangu'r busnes er mwyn i ni allu gwerthu ar draws y DU i gyd yn hytrach na dim ond cyflenwi'n lleol'. Dywedodd rhywun arall mewn cyfweliad fod 'ein busnes newydd yn y DU, ddim y tu allan i'r DU mewn gwirionedd'.

3.67 Soniodd eraill yn y cyfweliadau am fynediad newydd at farchnadoedd rhyngwladol, fel yr Almaen, yr Iseldiroedd a Ffrainc. Soniodd un hefyd am 'ddiddordeb brwd oherwydd bod cyfleoedd byd-eang nawr, yn enwedig yn y Dwyrain Canol ar gyfer

ein math ni o gynnyrch'. Soniodd un mewn cyfweliad mai un o'u targedau nhw oedd marchnad Tsieina, fodd bynnag oherwydd 'ansicrwydd *hyfryd* Brexit, mae llawer o bethau wedi cael eu gohirio'.

3.68 Roedd yr arolwg hefyd yn holi am leoliadau eu cwsmeriaid. Dywedodd tri (o'r 12) eu bod yn lleol gan fwyaf, gyda chwech yn dweud eu bod ar draws y DU, a 4 yn dweud eu bod ar draws yr Undeb Ewropeaidd. Mae siart 1.5 yn dangos y canlyniadau yma.

Siart 1.5: Sylfaen cwsmeriaid



Busnes/Marchnadoedd Newydd

Arallgyfeirio

3.69 Soniodd ambell un a gafodd eu cyfweld eu bod wedi gallu arallgyfeirio eu cynnyrch o ganlyniad i'r cynllun. Dywedodd un mewn cyfweliad eu bod wedi creu llinell newydd o gwrw mewn tuniau. Dywedodd eu 'bod wedi gallu ehangu i gwrw mewn tuniau sy'n sector gros'. Eglurodd hefyd eu bod nawr yn gallu ymuno â 'marchnad newydd sbon' o ganlyniad i arallgyfeirio eu prosiect gan eu bod nawr yn targedu 'tafarndai crand a bwytai sydd ar ben ucha'r farchnad'.

3.70 Soniodd rhywun arall mewn cyfweliad eu bod nawr 'yn chwilio am rywbeth ychydig yn wahanol' fel cynnyrch gyda blas newydd. Dywedodd fod y cynllun wedi'u galluogi i greu llinellau cynhyrchu newydd a oedd yn golygu bod modd gwneud mwy o gynnyrch ar yr un pryd. Mae'r cynllun wedi'u galluogi i wella eu gallu o ran cynnyrch newydd ac maent nawr yn 'siarad â nifer o bobl eraill am y cam nesaf' o ran arallgyfeirio ymhellach.

3.71 Gofynnwyd i’r rheini a gafodd gyfweliad hefyd os oeddent wedi dod yn fwy cystadleuol. Dywedodd nifer fod yr offer a’r cyfleusterau newydd a gefnogwyd gan y cynllun wedi golygu eu bod ‘nawr yn gallu cynnig prisiau sy’n fwy cystadleuol gan ein bod yn gallu cynhyrchu'n gyflymach o lawer’. Dywedodd rhywun arall mewn cyfweliad fod un darn o offer wedi gwella eu heffeithlonrwydd yn sylweddol gan ddweud ‘mae’n bendant wedi gwella ein gallu i gystadlu’.

3.72 Soniodd nifer yn y cyfweliadau eu bod wedi gallu denu busnes newydd gan eu bod nawr yn gallu profi eu gallu i gwsmeriaid. Dywedodd un mewn cyfweliad:

‘Rydyn ni wedi cael rhai archfarchnadoedd yn dod yn ôl a gweld beth rydyn ni’n gallu ei wneud...felly maen nhw nawr yn gallu dibynnu arnom ni gan ein bod wedi symud o beiriannau 30 oed i beiriannau sydd gyda’r mwyaf modern yn y byd’.

3.73 Soniodd rhywun arall mewn cyfweliad eu bod wedi gwella eu gallu, gyda chontractau newydd a mwy yn dod drwyddo. Dywedodd eu bod ‘nawr wedi cael contract mawr gyda Lidl’.

Meysydd i’w gwella

3.74 Mae’r adran hon yn amlinellu’r prif feysydd roedd y rheini a ymatebodd i'r arolwg a’r rheini a gafodd eu cyfweld yn meddwl bod angen eu gwella. Y tri prif faes a nodwyd fel meysydd i’w gwella gan y rheini a gymerodd ran yn yr ymchwil oedd y broses ymgeisio, y broses hawlio, a chyfathrebu â Swyddogion Llywodraeth Cymru.

Y Broses Ymgeisio

3.75 Soniodd nifer yn y cyfweliadau ac yn yr arolygon fod y broses ymgeisio’n cymryd llawer iawn o amser a'i bod yn anodd. Ar ben hynny, dywedodd y rheini a gafodd gyfweliad fod yr amser a gymerwyd i ddyfarnu’r grant yn rhy hir.

Llyncu Amser

3.76 Roedd cyfran uchel o’r rheini a gafodd eu cyfweld (7 o’r 9) wedi sôn am amserlen y broses ymgeisio a’r broses gyffredinol o’r dechrau i’r diwedd fel prif feysydd y gellid eu gwella.

3.77 Wrth ofyn iddynt ddisgrifio’r broses ymgeisio roedd y rhan fwyaf o'r rheini a gafodd eu cyfweld yn dweud ei bod yn ‘hir’. Gan fwyaf, dywedwyd bod y baich gweinyddol yn llyncu amser.

3.78 Soniodd nifer yn y cyfweliadau am faint o amser a dreuliwyd yn llenwi'r ffurflenni, gan ddweud bod 'y manylion a oedd eu hangen' yn golygu ei bod hi'n broses hir. Soniodd un mewn cyfweliad fod 'llawer mwy o waith papur nawr' o'i gymharu a phan roeddent wedi cymryd rhan mewn cynlluniau tebyg eraill gan Lywodraeth Cymru.

3.79 I'r gwrthwyneb, mae siart 1.6 yn dangos bod 9 (o'r 12) o ymatebwyr yr arolwg yn cytuno eu bod yn fodlon ag amserlen y broses ymgeisio. Serch hynny, dywedodd nifer (3 o'r 12) nad oeddent yn fodlon â'r amserlen gyffredinol ar gyfer y cais.

Siart 1.6: Gan feddwl am amserlen y broses ymgeisio, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?



3.80 Dywedodd un swyddog cymorth mai'r brif her ydy 'ceisio darbwyllo busnesau i ddal ati a buddsoddi'r amser yn hyn'. Dywedodd pan fydd ymgeiswyr yn gweld y broses ymgeisio a'r amserlenni dan sylw eu bod yn 'digalonni' a'i bod hi'n anodd iawn annog busnesau i weld y cynllun fel cyfle. Yn yr un modd, roedd swyddog cymorth arall yn dweud bod cyfnod amser yr holl broses, yr '*holl waith papur ar gyfer yr elfennau gwahanol'*, ac yn aml iawn *'yr holl waith ychwanegol yma'* yn golygu nad yw busnesau yn penderfynu ymgeisio.

3.81 Yn yr un modd, dywedodd un swyddog cymorth *'dwi'n delio â chwmnïau bach, ac maen nhw'n gwneud popeth eu hunain'*. Pwysleisiodd fod 'amser yn brin iawn fel y mae hi' i'r busnesau hyn, felly maent yn gweld y broses ymgeisio 'fel baich'.

Cymhlethdod/Anawsterau Ymgeisio

3.82 Roedd pob busnes a gafodd gyfweliad wedi sôn bod rhyw agwedd o broses y cynllun yn anodd neu'n gymhleth.

3.83 Dywedodd y rhan fwyaf a gafodd gyfweliad fod y broses ymgeisio'n anodd;

'Mae'n gais anodd oherwydd mae'n cynnwys llawer o wybodaeth'

'Poenus dros ben, anodd iawn ydy un disgrifiad'

'Roedd yr holl broses ymgeisio yn hollti blew'

'Roedd yn anodd o'r dechrau i'r diwedd'

'Roedd y broses gyfan yn heriol iawn, iawn'

3.84 Yn yr un modd, roedd un ymateb i'r arolwg yn dweud bod y broses ymgeisio yn 'gymhleth iawn', gan ddweud ei bod hi'n 'anodd iawn deall a dilyn y cyfarwyddyd'.

3.85 Ar ben hynny, dywedodd un o'r swyddogion hefyd fod 'y cais llawn yn broses eithaf cymhleth a bod angen llawer o gefnogaeth gennym ni a gan Busnes Cymru ar fusnesau'. Awgrymodd y gallai 'astudiaethau achos neu enghreifftiau o geisiadau blaenorol wneud y broses fymryn yn haws'.

3.86 Pan ofynnwyd mewn cyfweliadau pam fod y broses ymgeisio mor anodd, y prif faterion a nodwyd oedd faint o waith papur roedd angen ei lenwi, y dechnoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer y cais, a gorfod delio â'r cais ar yr un pryd ag ymrwymiadau gwaith.

'Swmp y dogfennau roedd eu hangen'

'Oherwydd y bobl roedden ni'n delio â nhw a'r llwyfan a ddefnyddiwyd ar gyfer llenwi'r cais'

'Roedd hi'n anodd iawn i fusnes bach. Roeddwn i'n ceisio rhedeg y cwmni ar yr un pryd â neidio dros yr holl rwystrau hyn'

'Oherwydd y manylder a oedd ei angen'

3.87 Soniodd ambell un mewn cyfweliadau ei bod hi'n anodd defnyddio'r llwyfan ar-lein ar gyfer y broses ymgeisio; 'doedd y system roedden ni'n gweithio arni ddim yn un dda iawn'.

3.88 I’r gwrthwyneb, roedd rhai yn y cyfweliadau yn teimlo nad oedd y broses ymgeisio mor drafferthus.

‘Roedd y broses, wel, rwy’n dweud ei bod yn syml, ac roedd ei fformat yn weddol dda’

‘Roedd llenwi’r ffurflenni cais yn iawn, ambell gwestiwn anodd’

‘Roedd y cais llawn yn fwy manwl [na’r datganiad o ddiddordeb] ond nid oedd yn achosi problemau’

3.89 Gallai nifer o'r rheini a gafodd eu cyfweld werthfawrogi'r angen am broses ymgeisio fanwl;

‘Roedden ni’n chwilio am lawer iawn o gyllid, felly gallwn ddeall bod gofyn cael llawer iawn o fanylion’

‘Rhaid iddyn nhw wneud pethau’n fanwl gywir er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn rhoi’r cymorth i’r prosiectau iawn’

3.90 Serch hynny, y consensws cyffredinol oedd bod y broses ymgeisio yn anodd ac yn gymhleth, gydag un yn awgrymu mewn cyfweliad bod ‘angen ei symleiddio’.

Yr amser a gymerwyd i ddyfarnu’r Grant

3.91 Roedd y Rheolwyr Busnes (Bwyd) a’r swyddogion cymorth o Cywain wedi sôn am y cyfnod hir roedd yn ei gymryd i ddyfarnu’r grant i fusnesau. Roedd y broses gyfan, o'r diwrnod mae busnesau’n cyflwyno cais i’r diwrnod pan roeddent yn cael y grant, yn gallu cymryd hyd at 18 mis. Dywedodd swyddogion cymorth:

‘mae’n broses eithaf hir ac estynedig’

‘mae’r holl broses yn rhy hir’

‘mae hi’n broses hir iawn a biwrocrataidd’

‘os oes rhywun eisiau symud yn gyflym, gall y broses gymryd hyd at 9 mis...ac mae hynny’n gyfnod hir’

‘Yn aml iawn mae pobl am weld yr holl beth yn digwydd yn gyflymach o lawer’

3.92 Roedd y Rheolwyr Busnes (Bwyd) a’r swyddogion o Cywain hefyd wedi sôn am yr anawsterau mae’r oedi yma (18 mis) yn gallu ei achosi i fusnesau oherwydd bod ‘llawer iawn yn gallu digwydd mewn 18 mis’. Roeddent yn dweud bod tueddiadau yn

y farchnad ac ymysg defnyddwyr yn gallu newid mewn 18 mis ac felly mae'n anodd i'r cynllun ddal i fyny â newidiadau mewn anghenion busnes:

'efallai y bydd contractau wedi diflannu'

'gallai tueddiadau yn y farchnad fod yn wahanol'

'nid yw'n dal i fyny â'r hyn sy'n digwydd mewn busnes'

'nid yw'n eu helpu o gwbl, gan nad ydyn nhw'n gallu symud yn gyflym'

'Mae naw mis yn rhy hir o lawer i fusnesau [aros am y grant] oherwydd eu bod yn gweithio'n gyflymach o lawer na hynny'

'Mae busnesau'n symud mor gyflym, dydyn nhw ddim yn gallu disgwyl naw mis am fuddsoddiad'

3.93 Dywedodd dau fusnes bwyd a gafodd gyfweliad ei bod wedi cymryd dwy flynedd i 'gael trefn' ar eu cais a dyfarnu'r grant. Roedd y naill a'r llall yn feirniadol o'r amser a gymerwyd i benderfynu i ddyfarnu'r grant. Roedd hyn wedi effeithio ar eu busnesau gan fod nifer o newidiadau wedi digwydd rhwng yr adeg roeddent yn cyflwyno eu cais a'r adeg roeddent yn cael y grant. Mae diffyg hyblygrwydd y grant yn cael ei drafod ymhellach ym mharagraff 3.109.

3.94 Roedd un ymateb i'r arolwg hefyd yn sôn am yr oedi cyn dyfarnu'r grant, gan ddweud 'mae dros dwy flynedd wedi pasio ers gwneud y cais, dwi wedi cael y grant, ond bum mis yn ddiweddarach nid ydw i wedi cael yr un geiniog'.

Y Broses Hawlio

3.95 Ar ddechrau eu prosiectau, ar ôl i'r grant gael ei ddyfarnu, mae busnesau yn cynllunio pryd byddant yn gwario'r arian (ee ar offer newydd) ac wedyn maent yn cyflwyno'r dyddiadau pan fyddant eisiau hawlio cyfran o'r arian hwnnw'n ôl. Soniodd nifer o fusnesau am oedi cyn cael yr arian yn ôl.

Amserlenni

3.96 Ar gyfer y rhan fwyaf o'r rheini a gafodd gyfweliad, roedd yr amserlenni a oedd ynghlwm wrth y broses hawlio yn heriol. Soniodd y mwyafrif am oedi hir cyn cael hawliadau yn ôl a oedd, maes o law, yn arafu prosiectau. Roedd hyn yn 'rhwystredig' ac yn 'heriol'. Dywedwyd bod y broses yn rhy hir, gydag un mewn cyfweliad yn awgrymu y gallai fod yn 'gyflymach'.

3.97 Yn yr un modd, roedd cyfran uchel o sylwadau yn yr arolygon (6) yn sôn am yr amserlenni a oedd ynghlwm wrth y broses hawlio. At ei gilydd, cafodd y broses gyfan ei disgrifio fel un araf a oedd yn llyncu amser. Roedd hyn yn rhannol oherwydd faint o amser roedd hi'n ei gymryd i lenwi'r ffurflenni i gyflwyno hawliadau, er enghraifft dywedwyd mewn un arolwg fod y broses hawlio yn 'ymddangos yn rhy hir heb fod angen'.

3.98 Ar gyfer busnesau sy'n delio â grantiau mawr, dywedodd un mewn cyfweliadau bod aros i dderbyn hawliadau yn anodd iawn oherwydd mae'n bosib bod 'llawer iawn o arian yn ddyledus'. Dywedodd un mewn cyfweliadau bod aros am ad-daliad i hawliad 'yn rhoi'r busnes o dan gryn bwysau ariannol ar adegau'.

3.99 Roedd y broses o wario'r arian yn gyntaf ac wedyn ei hawlio'n ôl yn heriol. Roedd rhai yn y cyfweliadau'n ei chael hi'n anodd talu am y gwariant yn y lle cyntaf, ac wedyn cael ad-daliad yn nes ymlaen (ac roedd yr oedi wrth hawlio'r arian yn ôl yn gwneud hyn yn waeth). Soniodd un mewn cyfweliad fod eu prosiect 'wedi mynd ymlaen yn hirach o lawer nag y bydden ni wedi'i hoffi' gan nad oedd yr arian ganddynt yn y lle cyntaf i brynu.

'Felly gallech chi fod yn hawlio ar gyfer mis Awst er enghraifft, ond efallai fyddech chi ddim yn cael yr arian tan fis Rhagfyr. Hunllef'.

3.100 Dywedwyd bod yr amserlen ar gyfer y broses hawlio yn heriol hefyd. Soniodd rhai mewn cyfweliadau fod y misoedd penodol a ddynodwyd i gyflwyno hawliadau wedi creu problemau wrth i elfennau o'u prosiectau newid. Mae diffyg hyblygrwydd y broses hawlio yn cael ei drafod ymhellach ym mharagraff 3.109.

Cymhlethdod

3.101 Roedd y rhan fwyaf a gafodd gyfweliad hefyd yn dweud bod y broses hawlio yn gymhleth. Yr agwedd y soniwyd amdani amlaf oedd y trafferthion wrth ddefnyddio'r llwyfan ar-lein i wneud hawliad. Dywedodd y rheini a gafodd gyfweliad ei bod yn system fanwl iawn, a'i bod yn anodd ei llenwi'n gywir. Soniodd nifer mewn cyfweliadau eu bod yn rhwystredig gyda'r ffurflenni hawlio ar-lein; 'mae'n mynd braidd yn flêr'.

3.102 Wrth holi pam ei bod mor anodd defnyddio'r ffurflenni cyflwyno hawliadau ar-lein, soniodd y rheini a gafodd gyfweliad am ffactorau tebyg;

- Roedd hi'n anodd defnyddio'r llwyfan
- Roedd y taenlenni ar gyfer mewnbynnu'r costau'n fanwl iawn
- Os nad oedd un elfen yn berffaith gywir, roedd yr holl hawliad yn anghywir
- Petai newidiadau'n cael eu gwneud, roedd yn rhaid gwneud yr hawliad eto

3.103 Dywedodd un a gafodd gyfweliad fod y llwyfan ar gyfer hawlio yn becyn meddalwedd newydd a oedd yn anodd ei ddefnyddio. Roeddent yn dweud bod hyn yn 'rhwystredig iawn' ond 'eu bod wedi llwyddo yn y pen draw'.

3.104 Soniodd ymatebwyr yr arolwg hefyd fod y system ar-lein yn 'feichus iawn ac yn anodd ei deall', gyda dau ymatebwr yn mynd ymlaen i egluro wrth i'r prosiect fynd rhagddo, bod dyddiadau a ffigurau prosiectau yn newid a oedd yn golygu 'bod pob hawliad yn dod yn fwy beichus ac yn cymryd rhagor o amser'.

3.105 Yn yr un modd, wrth drafod y broses hawlio, dywedodd un mewn cyfweliad; 'byddwn i'n gofyn am symlrwydd'. Oherwydd y lefel uchel o fanylion a oedd ei hangen, 'os nad oedd un elfen yn hollol gywir, mae'r holl beth yn dod i stop'. Dywedodd rhai a gafodd gyfweliad fod hyn yn 'boenus' ac roddent yn dweud 'y gallai'r holl broses fod yn symlach o lawer'.

3.106 Ystyriwyd bod lefel y manylion yr oedd eu hangen wrth lenwi'r daenlen yn anymarferol. Rhoddwyd un enghraifft mewn cyfweliad lle'r oedd yr unigolyn wedi wynebu arafwch wrth hawlio arian yn ôl oherwydd 'problemau gydag arian mân gwerth £2.50'. Eglurodd y sawl a oedd yn cael cyfweliad eu bod yn defnyddio arian traul weithiau mewn argyfwng, megis os yw'r stoc yn brin. Roedd nifer a gafodd gyfweliad yn teimlo felly bod yna ddiffyg dealltwriaeth o sut mae busnesau bach yn cael eu rhedeg o ddydd i ddydd.

3.107 Awgrymodd nifer a gafodd gyfweliad y dylai'r daenlen ar-lein ganiatáu rhywfaint o amcangyfrifon, gan ddarparu ar gyfer gwallau rhesymol. Byddai hyn yn golygu ei bod yn haws i fusnesau bach reoli'r broses hawlio a byddai'n atal arafwch ynghylch 'materion sy'n ymwneud ag arian traul'.

3.108 Roedd un arall a gafodd gyfweliad wedi amlygu cymhlethdod y broses hawlio drwy ddweud nad oedd unrhyw hyfforddiant wedi cael ei roi ynghylch sut roedd cyflwyno hawliadau. Ar ôl i'r hawliad cyntaf gael ei gyflwyno a'i glirio, roeddent yn gallu copïo'r un cyntaf ac addasu'r ffigurau.

Diffyg hyblygrwydd

3.109 Dywedodd rhai a gafodd gyfweliad fod diffyg hyblygrwydd y cynllun a'r broses hawlio yn benodol, yn hollol wahanol i gyflymder eu busnesau wrth iddynt dyfu.

3.110 Y prif fater a nodwyd oedd natur sefydlog y cyfnodau hawlio gan arwain at (1 colli dyddiadau cau hawlio a 2) mwy o bwysau gwaith i gyrraedd y dyddiadau cau hawlio. Roedd materion eraill a godwyd ynghylch hyblygrwydd yn cynnwys mewnbynnu newidiadau i'r ffurflen hawlio.

3.111 Soniodd nifer a gafodd eu cyfweld am natur sefydlog y cyfnodau ar gyfer cyflwyno hawliadau. Cytunwyd ar ddyddiadau penodol ar ddechrau'r prosiect pan fyddai'r busnesau'n cael cyflwyno hawliadau. Dywedodd un a gafodd gyfweliad nad oedd wedi gallu cyrraedd y dyddiad cau ar gyfer nifer o hawliadau oherwydd amgylchiadau nad oedd modd eu rhagweld, felly roedd pob hawliad yn cael ei wthio'n ôl i'r cyfnod hawlio nesaf. Roedd hi'n anodd delio â hyn gan fod hyd at 4 mis yn gallu bod rhwng pob cyfnod hawlio. Yn yr un modd, dywedodd rhywun arall mewn cyfweliad eu bod wedi colli slot hawlio 'oherwydd pwysau gwaith' a bod hyn wedi dal eu prosiect yn ôl chwe mis.

3.112 Dywedodd rhywun arall mewn cyfweliad fod pwysau gwaith yn cynyddu wrth geisio cyrraedd y dyddiadau cau hawlio oherwydd 'eich bod yn gwthio ac yn gwthio i wneud rhywbeth' er mwyn peidio â cholli eich cyfnod hawlio. Roedd y sawl a gafodd gyfweliad yn pwysleisio;

'Mae'n iawn dweud y gwawn ni ddisgwyl cyn cyflwyno'r hawliad, ond pan fydd eich cyllideb yn dynn rydych chi angen y cymorth hwnnw er mwyn i chi allu symud ymlaen i'r taliad nesaf, felly mae gofyn jyglo dipyn a dweud y gwir'.

Awgrymodd yr unigolyn yn y cyfweliad y dylid cael mwy o hyblygrwydd gyda'r cyfnodau hawlio. Yn yr un modd, awgrymodd rhywun arall mewn cyfweliad y byddai cael proses hawlio 'ar sail dreigl' yn golygu bod busnesau'n gallu cyflwyno hawliadau'n fwy rheolaidd.

3.113 Dywedwyd hefyd bod y broses hawlio yn anhyblyg wrth fewnbynnu a gwneud cais am newidiadau i brosiect drwy ddefnyddio'r system ar-lein:

'Mae pethau yn newid yn ystod y broses. Roedd gwneud y newidiadau hyn a gwneud cais am newidiadau drwy'r wefan fel y gofynnwyd i ni ei wneud braidd yn rhwystredig.'

At ei gilydd teimlwyd nad oedd y system ar-lein ar gyfer cyflwyno hawliadau yn ddigon hyblyg er mwyn caniatáu ar gyfer y newidiadau anochel sy'n digwydd yn ystod prosiectau.

3.114 Roedd rhywun arall a gafodd ei gyfweld hefyd wedi cael anawsterau wrth ffitio newidiadau i'r prosiect yn y cyfnodau hawlio oherwydd 'rydych chi'n rhwym wrth yr hyn rydych chi wedi'i ddweud rai misoedd yn flaenorol'. Roeddent yn egluro bod gweithio gyda nifer o gontractwyr yn golygu ei bod hi'n hawdd i'r prosiect golli amser a bod elfennau'n newid, ac nid ydy'r broses hawlio yn caniatáu ar gyfer y newidiadau hyn.

Anghysondeb

3.115 Dywedwyd nad oedd cysondeb yn y broses hawlio. Roedd un a gafodd gyfweliad yn rhwystredig oherwydd ei fod wedi treulio misoedd yn dysgu sut roedd y system ar-lein ar gyfer cyflwyno hawliadau yn gweithio, ond wedyn newidiwyd i lwyfan arall;

'roedden nhw'n newid y rheoliadau wrth i chi fynd ymlaen...felly bydden ni'n disgwyl pythefnos neu dair wythnos iddyn nhw ddweud wrthyn ni nad oedden ni wedi llenwi pethau'n iawn...rydyn ni wedi newid pethau ac mae'n rhaid i chi wneud pethau fel hyn'.

Roedd y newid yma wedi effeithio ar y busnes penodol yma oherwydd ei fod wedi gwthio eu hawliad yn ôl bedwar mis. Ar gyfer yr unigolyn yma, roedd diffyg cyfathrebu yn broblem (caiff hyn ei drafod ymhellach yn yr adran isod).

Cyfathrebu

3.116 Roedd pump (o'r naw) a gafodd gyfweliad wedi dweud bod y cyfathrebu â swyddogion Llywodraeth Cymru yn anghyson. Mae'r cyswllt â 'swyddogion Llywodraeth Cymru' yn golygu'r cyswllt a gafodd y busnesau bwyd â swyddogion yn gyffredinol - *nid* y Rheolwyr Busnes (Bwyd).

3.117 At ei gilydd, y prif ganfyddiad oedd bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn barod i helpu; serch hynny, roedd materion ynghylch diffyg cysondeb yn nhimau Llywodraeth Cymru. Soniodd y rheini a gafodd gyfweliad fod cael un cyswllt cyson yn Llywodraeth Cymru (eu rheolwr busnes - bwyd) yn ddefnyddiol iawn, serch hynny gofynnwyd cwestiynau iddyn nhw'n aml a oedd y tu hwnt i'w cylch gwaith. Y broblem oedd dod o hyd i'r swyddogion llywodraeth cywir i fireinio materion a oedd y tu allan i gylch gwaith y rheolwr busnes (bwyd).

3.118 Soniodd un a gafodd gyfweliad fod personél prosiect Tîm yr Is-adran Fwyd yn newid yn eithaf rheolaidd drwy gydol eu hymwneud â'r cynllun. Teimlwyd bod hyn, yn rhannol, oherwydd yr aildrefnu mewn timau gwasanaeth sifil oherwydd y paratoadau ar gyfer Brexit. Roeddent hefyd yn dweud bod unigolion allweddol a oedd yn gyfrifol am reoli'r cynllun hefyd wedi newid.

3.119 Cafodd y canfyddiad hwn ei adlewyrchu gan ymatebwyr yr arolwg a soniodd fod personél y prosiect yn yr adran wedi newid yn weddol reolaidd, ac felly roeddent yn pwysleisio 'y byddai pwynt cyswllt parhaus wedi bod yn fwy buddiol'.

3.120 Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg hefyd a oedd y gefnogaeth a roddwyd yn amserol. Mae siart 1.7 yn dangos er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno (9), roedd dau ymatebwr yn anghytuno'n gryf.

Siart 1.7: Yr amserlen

Roedd y cymorth a roddwyd yn amserol



Nifer yr ymatebwyr (n=11)

3.121 Roedd y newid yn staff Llywodraeth Cymru wedi cael cryn effaith ar y busnesau. Dyma oedd rhai o'r materion a nodwyd:

- oedi wrth hawlio'r arian yn ôl (a oedd yn arwain at broblemau llif arian);
- anawsterau wrth gael gafael ar y person iawn i ateb ymholiadau, a;
- Diffyg cyfathrebu/rhannu gwybodaeth rhwng swyddogion a busnesau.

3.122 Eglurodd un mewn cyfweliad sut roedd y newid mewn swyddogion hanner ffordd drwy eu prosiect wedi arwain at orfod disgwyl chwe mis arall cyn hawlio eu harian yn ôl. Roedd hyn oherwydd bod eu hail daliad yn cael ei weinyddu gan bobl wahanol;

'Mae'n debyg i ni gael oedi o ryw chwe mis oherwydd bod y timau o bobl a oedd yn delio â'r gwaith papur a'r gwaith gweinyddol wedi newid yn llwyr.'

'Roedd yn bechod oherwydd fe gafodd hyn effaith arnom ni, oherwydd roedd y problemau llif arian yn ddifrifol, doedden ni ddim yn gallu cael gafael ar ail gylch y grant'.

Dywedwyd bod hyn yn rhwystredig oherwydd bod y broses yn newid o fod yn 'system effeithiol' (cyn uno timau) i broses a oedd yn fwy cymhleth oherwydd:

'Y paratoadau ar gyfer Brexit a'r ffaith bod pobl yn cael eu symud o un peth i'r llall, unwaith eto roedd hyn yn ymwneud â'r ansicrwydd enfawr o ran gadael yr Undeb Ewropeaidd, ac nid oedd neb yn gallu cael trefn ar bethau, ac fe gafodd effaith arnom'.

'Yng nghanol yr holl ad-drefnu timau mae'r effaith go iawn ar y lefel rydyn ni'n gweithio arni'n hollbwysig'.

3.123 Soniodd nifer a gafodd gyfweliadau mai eu rheolwyr busnes (bwyd) oedd eu hunig bwynt cyswllt cyson;

Nid oedd *'neb arall i ni gysylltu, siarad â nhw, ac roedd enwau'n newid yn gyson, felly [rheolwr busnes (bwyd)] oedd fy unig enw cyswllt, ac roedd hynny'n rhwystredig.'*

Dywedodd rhai a gafodd gyfweliadau eu bod wedi dibynnu llawer ar eu rheolwyr busnes (bwyd) i ddod o hyd i'r cysylltiadau iawn i ateb eu cwestiynau, dywedodd un a gafodd gyfweliad:

'Wrth gwrs, dim ond hyn a hyn roedd [rheolwr busnes (bwyd)] yn gallu ei wneud, yna byddai'n rhaid iddyn nhw fynd i chwilio am rywun arall i ateb y cwestiynau oherwydd dim dyna oedd eu gwaith nhw, ond nhw oedd yr unig berson roedden ni'n gallu siarad â nhw o'r dechrau i'r diwedd. Byddai'n dweud, wel, dydw i ddim yn gwybod ond fe wna i geisio cael gafael ar rywun a fydd yn gallu dod yn ôl atoch chi a rhoi ateb i chi.'

3.124 Roedd dod o hyd i'r swyddog iawn yn Llywodraeth Cymru i ateb cwestiynau yn anoddach fyth oherwydd y diffyg cyfathrebu rhwng y swyddogion a'r busnesau. Dywedodd un unigolyn a gafodd gyfweliad;

'Doedd neb yn dweud wrthym pan oedd cydweithwyr roedden ni'n delio ag ef wedi symud ymlaen. Felly bydden ni'n treulio wythnosau ac wythnosau'n ceisio siarad â phobl ac wedyn cael gwybod eu bod wedi gadael y Cynulliad neu eu bod wedi symud i adran wahanol ac nad oedden nhw'n gofalu amdanom ni mwyach.'

3.125 Roedd hyn yn arafu prosiect y busnes ac nid oedd y manylion yn dal yn derfynol adeg y cyfweliad.

3.126 Soniwyd am ddiffyg gwybodaeth swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd o ganlyniad i'r newidiadau mewn timau. Dywedodd un mewn cyfweliad 'roedd hi mor rhwystredig' oherwydd doedd 'neb yn gallu ateb eich cwestiynau a phan roeddech chi'n siarad â rhywun doedden nhw ddim yn gwybod yr atebion'.

3.127 Dywedodd un a gafodd gyfweliad fod cysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru yn anghyson a'i bod hi'n anodd creu perthynas gan nad oedd y berthynas yn para'n hir. Roeddent yn dweud:

'Roedd yn ymddangos fel petai'r bobl roeddech chi'n delio â nhw yn newid...dydyn ni ddim wedi delio â'r un person drwy gydol y broses a byddai hynny wedi bod yn braf. Rydych chi'n meithrin perthynas â rhywun (does dim byd o'i le ar y bobl sydd wedi bod yn gweithio yno) ond mae'n ymddangos eu bod wedi symud ymlaen i rôl arall cyn pen pum munud ac wedyn rydych chi'n dechrau eto gyda rhywun newydd...ac mae'r bobl newydd yma'n cymryd amser i ddysgu pethau a gwybod sut mae popeth yn gweithio'

3.128 Awgrymodd nifer a gafodd gyfweliad y byddai cysondeb yn y gefnogaeth gan swyddogion yn gwella'r cynllun;

'Mae angen cysondeb o'r dechrau i'r diwedd, a gweithiwr achos sy'n aros gyda chi drwy gydol yr holl brosiect, ac wedyn o leiaf mae gennych chi bwynt cyswllt'

'Cael un pwynt cyswllt yn swyddfa Cymru a oedd yn ein cefnogi, ond efallai fod hynny'n gofyn gormod'

'Byddai cael un pwynt cyswllt parhaus wedi bod yn fwy buddiol'

3.129 Soniodd un unigolyn a gafodd gyfweliad fod yr anghysondeb gan swyddogion cymorth fel 'cael rhywun ar hap', gan egluro efallai na fyddai hyn yn digwydd eto/na fyddai'n broblem barhaus yn y dyfodol, wrth i Brexit gael ei ddatrys ac wrth i dimau setlo.

Diffyg hyblygrwydd

3.130 Dywedodd un unigolyn a gafodd gyfweliad fod y cynllun drwyddo draw yn eithaf anhyblyg. Dywedodd fod 'y camau roedd yn rhaid i chi fynd drwyddyn nhw'n eithaf caeth' a 'bod yn rhaid i chi oresgyn nifer o rwystrau, ac wedyn roedd pyst y gôl yn newid neu mae'r busnes yn symud ymlaen'. Dywedodd ei bod yn anodd dilyn system mor gaeth wrth i'r 'busnes symud ymlaen ar garlam'. Eglurodd y byddai unrhyw newidiadau i'r prosiect yn arwain at oedi, felly 'mae'n gwneud pethau'n anodd iawn pan mae'n cymryd cyn hired'. Roedd yr unigolyn yma yn teimlo nad ydy'r cynllun yn ddigon hyblyg i addasu i gyflymder newid mewn busnesau sy'n tyfu'n gyflym iawn.

3.131 Soniodd swyddogion cymorth hefyd am 'ddiffyg dealltwriaeth rhwng y bobl sy'n creu'r strategaethau a'r polisïau a'r gwariant mewn llywodraeth...a'r cwmnïau sydd yno ar lawr gwlad'. Roeddent yn sôn bod y diffyg dealltwriaeth yma'n golygu bod y cynllun yn anhyblyg ar gyfer gweithio o amgylch busnesau sy'n datblygu'n gyflym, yn aml pan fydd dim ond llond llaw o bobl yn 'brwydro i wneud chwe swydd ar yr un pryd'.

3.132 Roedd gan rai a gafodd gyfweliad farn wahanol, gan ddweud bod y cynllun yn weddol hyblyg. Dywedodd un a gafodd gyfweliad eu bod wedi gallu addasu'r hyn roedd wedi gwneud cais amdano'n wreiddiol, ac roedd un arall yn cydnabod bod ei gynllun wedi datblygu a newid a'i fod wedi gallu addasu ei ffurflen gais yn unol â hynny;

‘Roedd yn eithaf hyblyg o’ch ochr chi ac roedd hynny wedi ein helpu i gyrraedd pen y daith’

3.133 Dywedodd rhai a gafodd gyfweliad nad oedd hyblygrwydd yn broblem gan fod eu prosiect yn cyd-fynd â'r cynllun a dyna pam eu bod wedi’i ddewis yn y lle cyntaf.

Meysydd/mathau o gefnogaeth ychwanegol

3.134 Gofynnwyd i’r Rheolwyr Busnes (Bwyd) a oeddent yn teimlo bod yna unrhyw fylchau neu gyfyngiadau yn y cymorth a oedd yn cael ei ddarparu gan y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd ar hyn o bryd. Roedd y ddau a gafodd gyfweliad wedi sôn y byddai amrywiaeth ehangach o gymorth o fudd i fusnesau bwyd. Ar hyn o bryd, mae’r cynllun yn cynnig buddsoddiad cyfalaf gan fwyaf. Soniodd un a gafodd gyfweliad fod arbenigedd technegol a rheoli prosiectau yn feysydd lle mae angen cefnogaeth ychwanegol, a soniodd un arall am gefnogaeth marchnata.

3.135 Yn yr un modd, pan ofynnwyd i fusnesau am eu syniadau i wella’r cynllun i’r dyfodol, awgrymodd ambell un a gafodd gyfweliad y bydden nhw’n hoffi cael cymorth ychwanegol y tu hwnt i fuddsoddiad cyfalaf. Soniodd rhai a gafodd gyfweliad, nawr eu bod wedi cael y buddsoddiad cyfalaf byddent yn hoffi gweld ‘cyllid dilynol’ mewn meysydd eraill fel cefnogaeth marchnata, ymchwil a datblygu, a chyfleoedd hyfforddi (ee hyfforddiant ar Adnoddau Dynol, iechyd a diogelwch...):

‘mae bob amser gofyn am ryw fath o gymorth busnes fel ymchwil a datblygu’

‘bydden ni’n chwilio am farchnata, dydyn ni ddim yn canu ein clodydd ein hunain ddigon, dydyn ni ddim yn marchnata ein hunain ddigon’

‘cefnogaeth mewn adnoddau dynol ac iechyd a diogelwch a phethau...byddai hynny’n ddefnyddiol iawn’

‘[cefnogaeth gan] werthwyr neu gyfrifydd am ryw dri mis’

3.136 Ar ben hynny, soniodd rhai a gafodd gyfweliad y byddai’n ddefnyddiol iawn ‘cael ein cyfeirio i’r lle iawn’ i gael rhagor o gefnogaeth ar ôl i’r gefnogaeth gan y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd ddod i ben. Dywedodd un a gafodd gyfweliad ac sydd ar gam olaf y grant y byddai wedi hoffi cael ei gyfeirio i’r lle iawn ar y diwedd:

‘efallai fod diffyg cyswllt braidd. Byddai wedi bod yn braf ar y cam yma dweud iawn, rydych chi wedi cyrraedd fan hyn, nawr dyma’r llwybrau gwahanol y gallai Llywodraeth Cymru eich cyfeirio atynt i gael cefnogaeth a fydd yn berthnasol i’ch busnes chi. Yn hytrach na’ch bod yn cael y gefnogaeth a dim mwy’.

3.137 Dywedodd un swyddog cymorth mewn un achos nad oedd y cynllun wedi talu am y 'gost fwyaf' sef prynu da byw. Roedd yn awgrymu petai'r cynllun yn talu am brynu da byw, yna byddai'n fuddsoddiad gwell ar gyfer rhai busnesau.

3.138 Yn olaf, dywedodd un a gafodd gyfweliad nad oedd ganddo lawer o welliannau i'w hawgrymu a'i fod yn falch iawn gyda'r cynllun, gan ddweud:

'Dwi'n meddwl bod Is-adran Bwyd Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith da, ydyn wir, a byddwn i'n hoffi gwneud cyfraniad call i wella pethau, ond dwi'n teimlo ein bod yn cael ein sbwylio yng Nghymru. Mae'r Llywodraeth yn cynnig llawer iawn o gymorth i ni a dwi'n gwybod nad ydy pobl eraill yn cael cymorth o'r fath, pobl mewn ardaloedd eraill o'r Deyrnas Unedig, felly byddwn i wrth fy modd yn gallu rhoi rhagor o adborth, ond dwi'n hapus gyda phopeth'.

3.139 Dywedodd un swyddog cymorth fod rhai busnesau, yn enwedig busnesau llai, nad ydynt yn gwneud cais am gymorth drwy'r cynllun. Roedd yn awgrymu efallai fod hyn oherwydd y canfyddiad ymysg busnesau llai bod y cynllun ar gyfer cwmnïau mwy yn hytrach na busnesau llai fel nhw. Dywedodd fod y canfyddiad yma yn deillio o ddiffyg dealltwriaeth o fanylion y ffurflen mynegi diddordeb sy'n amlinellu, er enghraifft, ei bod yn rhaid creu canran benodol o swyddi newydd. Dywedodd y swyddog cymorth na fydd busnesau llai yn gwneud cais os ydynt yn teimlo na fyddant yn gallu cyflawni'r gofynion. Roedd yn awgrymu y byddai'n syniad da i egluro gofynion y cais yn well.

3.140 Roedd y ddau swyddog cymorth o Cywain felly'n awgrymu y byddai 'potiau llai o arian' ar gyfer cwmnïau bach yn fanteisiol. Roeddent yn dweud y byddai cwmnïau llai mewn ardaloedd gwledig yn elwa o symiau llai o gyllid (megis pump i ddeng mil o bunnoedd) a fyddai'n eu galluogi i fuddsoddi mewn offer neu unedau (mannau gwaith) ac yn eu galluogi i dyfu.

3.141 Dywedodd un swyddog cymorth fod 'potiau llai yn gallu bod yn fwy buddiol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac ar gyfer cwmnïau llai sy'n gallu tyfu ond sydd angen hwb bach'. Byddai buddsoddiad bach yn eu galluogi i 'dyfu ychydig yn fwy' a hyd yn oed 'creu un swydd arall'.

3.142 Roedd hefyd yn awgrymu petai 'pot llai o arian' ar gyfer ceisiadau gan fusnesau llai, yna gallai'r broses ymgeisio fod yn 'gyflymach'. Awgrymwyd y gellid defnyddio'r potiau llai hyn o arian i dalu am bethau fel dosbarthu a phecynnu.

3.143 Dywedodd swyddogion cymorth fod prinder unedau ar gyfer prosesu hefyd. Ar hyn o bryd mae rhai busnesau'n llogi unedau prosesu am ddiwrnod neu ddau'r wythnos ond ni allant fforddio buddsoddi yn eu huned eu hunain a chael un uned amser llawn. Awgrymodd un swyddog y byddai 'cydweithio gydag unedau cynhyrchu' yn lleihau costau ac yn golygu bod rhagor o fusnesau'n gallu symud ymlaen i broses pum niwrnod yr wythnos.

4. Casgliadau

4.1 Mae canfyddiadau'r adroddiad yma yn seiliedig ar safbwyntiau sampl bach o fusnesau bwyd a gafodd gymorth drwy'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd yng Nghymru; serch hynny mae'n rhoi cipolwg i ni o effeithiolrwydd y cynllun ar hyn o bryd.

4.2 At ei gilydd, roedd gan y rheini a gymerodd ran agwedd ffafriol tuag at y cynllun. Yn gyffredinol, barnwyd bod cryfderau'r cynllun yn drech nag unrhyw anawsterau a brofwyd gan y rheini a gymerodd ran. Dyma oedd y prif gryfderau a nodwyd:

- yr allbynnau mae busnesau wedi'u cyflawni o ganlyniad i gymorth gan y cynllun; gan gyflawni disgwyliadau'r prosiect a rhagori arnynt weithiau;
- y gefnogaeth ddefnyddiol a gafwyd gan Lywodraeth Cymru, y rheolwyr busnes (bwyd); ac
- yr effeithiau uniongyrchol roedd y rheini a gymerodd ran yn yr ymchwil yn dweud a oedd wedi deillio o'r cynllun, fel mwy o gyflogaeth, hyfforddiant a chynaliadwyedd amgylcheddol.

4.3 Mae'r agweddau hyn yn cyfrannu at ba mor boblogaidd ydy'r cynllun, gan gadarnhau ei fod yn llenwi bwlch a bod llawer o alw amdano.

4.4 Fodd bynnag, nodwyd rhai meysydd i wella'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd hefyd. Dyma'r tri phrif faes yr oedd angen eu gwella yn ôl y rheini a gymerodd ran yn yr ymchwil:

- amserlen y broses ymgeisio, gan gynnwys cyflymu cam y cais llawn er mwyn dyfarnu'r grant mewn cyfnod byrrach;
- y broses hawlio; roedd awgrymiadau'n canolbwyntio ar wneud y broses yn fwy hyblyg ac yn symlach er mwyn arbed amser a darparu ar gyfer newidiadau mewn prosiectau; a'r
- cyswllt gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, yn benodol gwell cyfathrebu rhwng swyddogion yn ystod cyfnodau o newid er mwyn sicrhau bod yr holl swyddogion wedi cael yr wybodaeth ddiweddaraf a'u bod yn gallu helpu gydag ymholiadau gan fusnesau bwyd.

4.5 Er gwaethaf yr heriau a nodwyd gan y rheini a gymerodd ran yn yr ymchwil, roedd y mwyafrif yn teimlo bod y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd wedi bod o fudd enfawr i fusnesau yng Nghymru a'i fod wedi cael effaith gadarnhaol ar y busnesau hynny a oedd wedi derbyn cymorth. Dywedodd y rheini a gymerodd ran yn yr ymchwil y byddent yn hoffi gweld buddsoddiad mewn mathau eraill o gefnogaeth yn y dyfodol, fel hyfforddiant a rheoli.

Adran gyfeirio

Adroddiad Gweithredol Canol Tymor: Gwerth Bwyd a Diod Cymru 2017. [Agorwyd: 29/04/2019].

Brexit a'n tir: Diogelu dyfodol ffermio yng Nghymru [Agorwyd: 29/04/2019].

Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 [Agorwyd: 29/04/2019].

Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020: Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd: Nodiadau Cyfarwyddyd [Agorwyd: 29/04/2019].

Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020 [Agorwyd: 29/04/2019].

Cynllun gweithredu newydd ar gyfer y diwydiant Bwyd a Diod [Agorwyd 29/04/2019].

Cywain [Agorwyd: 29/04/19].

Adolygiad o gryfder ffermio [Agorwyd: 29/04/2019].

Strategaeth a Chynllunio at y Dyfodol ar gyfer Bwyd a Diod yng Nghymru [Agorwyd: 29/04/2019]

Atodiad A – Tabl o’r Ymgeiswyr

Diweddarwyd y data hwn ddiwethaf ar y 4ydd Chwefror 2019.

Dyddiad agor a chau'r ffenestr mynegi diddordeb	Nifer y datganiadau o ddiddordeb a gafwyd	Nifer a gafodd wahoddiad i gyflwyno cais llawn	Nifer o geisiadau llawn a gyflwynwyd	Nifer y ceisiadau a gafodd eu cymeradwyo hyd yma (04/02/2019)	Nifer y ceisiadau sy’n aros am arfarniad terfynol	Cyfanswm gwerth y prosiectau sydd wedi cael eu cymeradwyo (£)	Cyfanswm gwerth y grantiau a roddwyd (£)
01/07/2015 – 30/09/2015	85	24	20*	19	1	30.5m	11.3m
29/02/2016 – 25/04/ 2016	65	21	18	16**	0	77m	22.1m
02/11/2016 – 18/01/ 2017	50	46	30***	24	4	3.9m	1.4m
22/05/2017 – 19/09/ 2017	50	24	19	6	0	1.6m	641k
23/04/2018 – 30/06/2018	69	18	3 (y dyddiad cau ydy 06/09/2019)	0	3	AMH[†]	AMH[†]
23/04/2018 – 29/11/2018	8	8	0 (y dyddiad cau ydy 23/01/2020)	AMH[†]	AMH[†]	AMH[†]	AMH[†]

*3 wedi’u tynnu’n ôl ac 1 wedi’i wrthod

**5 wedi’u tynnu’n ôl yn ffurfiol

***18 wedi’u tynnu’n ôl neu eu gwrthod

[†]Mae’r ffenestr ar gyfer ceisiadau llawn yn dal ar agor, felly mae rhywfaint o ddata heb ei gasglu eto.

Atodiad B – Gwybodaeth Gefndir/Ychwanegol

Mae'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd yn ymwneud â buddsoddiadau cyfalaf mewn offer prosesu ac mae'n cefnogi prosiectau sy'n cynnig manteision i gynhyrchwyr cynradd, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn y sector amaethyddiaeth sy'n darparu'r deunyddiau crai. Mae Mentrau Micro, Bach neu Ganolig yn flaenoriaeth ar gyfer cymorth. Y trothwy grant uchaf fesul menter ar gyfer unrhyw brosiect buddsoddi unigol yw £5,000,000, a'r isaf yw £2,400[8]. Mae'n rhaid i ymgeiswyr ar gyfer y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd ddangos manteision uniongyrchol neu anuniongyrchol i'r tyfwyr neu'r cynhyrchwyr cynradd sy'n darparu'r deunyddiau crai sy'n cael eu defnyddio ar gyfer y prosesu ac y bydd cyfran ddigonol a pharhaus o'r manteision economaidd ehangach yn cronni i gynhyrchwyr cynradd. Rhaid i ymgeiswyr hefyd ddangos eu bod wedi canfod marchnad hyfyw ar gyfer eu cynnyrch ac na fyddai'r prosiect yn gallu mynd rhagddo heb y grant. Gellir defnyddio'r grant i wella ac i ddatblygu cyfleusterau prosesu, er enghraifft, i adeiladu adeiladau newydd, i adnewyddu hen safleoedd a/neu i brynu offer newydd neu ail-law cymwys (mae rhai amodau'n berthnasol).[9]

Mae'n rhaid i bob prosiect a gefnogir drwy'r cynllun wneud cyfraniad at y Cynllun Gweithredu Strategaeth Bwyd cyffredinol – Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014 – 2020. Lansiwyd y cynllun ym mis Mehefin 2014 gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ar y pryd. Mae'n cyflwyno sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu helpu diwydiant bwyd a diod Cymru i dyfu 30 y cant i fod yn werth £7 biliwn erbyn 2020.[10] Mae'r sector wedi gwneud cynnydd sylweddol at y targed hwn, gan gynyddu o £5.4bn yn 2013 i £6.8bn yn 2018, sy'n agos iawn at gyflawni'r targed uchelgeisiol hwn.[11]

Ym mis Gorffennaf 2018, roedd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, Lesley Griffiths, yn annog pawb a oedd â diddordeb yn nyfodol y sector i gymryd rhan a rhannu eu barn ynghylch sut mae angen i'r sector ddatblygu a lle mae angen i'r sector fod mewn pump i ddeng mlynedd[12]. Mae Llywodraeth Cymru a Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru wedi dechrau gweithio ar baratoi cynllun gweithredu newydd ar y cyd i gefnogi'r diwydiant. Yn dilyn cyfarfodydd ymgynghori â rhanddeiliaid sydd â diddordeb yn y diwydiant, mae nifer o

[8] Mae canllawiau diweddaraf (Mai 2018) y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd yn nodi mai uchafswm y trothwy yw £5,000,000 a'r isafswm yw £2,400. Mae'r trothwy wedi amrywio yn ystod gwahanol gyfnodau Datgan Diddordeb - gweler Atodiad A.
[9] Rhaglen Datblygu Gwledig - Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-2020: Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd - Nodiadau Cyfarwyddyd [Agorwyd: 08/042019].
[10] Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020 [Agorwyd: 17/04/2019].
[11] Adroddiad Gweithredol Canol Tymor: Gwerth Bwyd a Diod Cymru 2017 [Agorwyd: 08/04/19].
[12] Cynllun Gweithredu newydd ar gyfer y diwydiant Bwyd a Diod [Agorwyd: 08/04/19].

negeseuon allweddol wedi'u nodi, yr hoffent roi sylw iddynt, ac mae nifer o themâu eang wedi dod i'r amlwg o ran 'Tyfu ein Busnesau', 'Hyrwyddo Cymru y Genedl Fwyd' a 'Bod o Fudd i'n Pobl a'n Cymdeithas'. Mae swyddogion polisi'n bwriadu cynnal ymgynghoriad ffurfiol ddiwedd gwanwyn 2019.

Atodiad C - Cwestiynau'r arolwg

Eich barn am y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd (2018-19)

Eich safbwyntiau am y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd

Mae'r arolwg hwn yn gofyn cwestiynau ynghylch eich barn a'ch profiadau o'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd, i helpu i dynnu sylw at feysydd sy'n gweithio'n dda a ble y mae angen gwella.

Dylai gymeryd tua 10 munud ichi roi eich barn a rhoi syniad inni o sut y mae'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd yn gweithio, a llywio ei ddatblygiad yn y dyfodol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu anhawsterau wrth lenwi'r arolwg hwn, cysylltwch ag Elspeth Garratt:

Rhif ffôn: 0300 025 3558; neu
ebost: elspeth.garratt@llyw.cymru

Diolch am eich cyfraniad.

---

1. Beth yw statws cyfreithiol eich busnes?
   - Cwmni preifat (cyfyngedig)
   - Partneriaeth
   - Unig-fasnachwr hunangyflogedig / unig bartneriaeth
   - CCP
   - Arall

2. Faint o weithwyr y mae eich busnes yn ei gyflogi ar hyn o bryd, ag eithrio perchnogion a phartneriaid?
   - Dim
   - 1-4 gweithiwr
   - 5-9 gweithiwr
   - 10-29 gweithiwr
   - 50-250 gweithiwr
   - Mwy na 250 gweithiwr

3. Pa un o'r bandiau canlynol sy'n disgrifio trosiant blynyddol eich cwmni ar gyfer y flwyddyn ariannol lawn ddiwethaf? (Cynnwys: TAW, Eithrio: Cymorth Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd)
   - Ddim yn gwybod
   - Gwell Gennyf Beidio â Dweud
   - Dim trosiant

- Llai na £25,000
- £25,000 - £49,000
- £50,000 - £74,999
- £75,000 - £99,999
- £100,000 - £249,999
- £250,000 - £499,999
- £500,000 - £999,999
- £1miliwn - £1.9 miliwn
- £2miliwn - £4.9 miliwn
- £5miliwn - £9.9 miliwn
- £10miliwn - £14.9 miliwn
- £15miliwn - £24.9 miliwn
- £25miliwn+

4. Ble mae eich cwsmeriaid ar y cyfan?
    - Lleol e.e. o fewn 30 milltir i'ch prif leoliad
    - Ar draws eich rhanbarth
    - Ledled Cymru
    - Ledled y DU
    - Ar draws yr Undeb Ewropeaidd
    - Rhyngwladol
    - Ddim yn gwybod
    - Arall

5. Ble mae eich cystadleuaeth ar y cyfan?
    - Lleol e.e. o fewn 30 milltir i'ch prif leoliad
    - Ar draws eich rhanbarth
    - Ledled Cymru
    - Ledled y DU
    - Ar draws yr Undeb Ewropeaidd
    - Rhyngwladol
    - Ddim yn gwybod
    - Arall

Mae'r cwestiynau canlynol yn holi am eich rhesymau dros ofyn am gymorth gan y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd.

Wrth ystyried yr hyn a'ch ysgogodd i wneud cais am gymorth gan Gynllun Busddsoddi mewn Busnesau Bwyd, p'un o'r datganiadau canlynol sy'n berthnasol i chi?

6. Fy rheswm dros wneud cais am gyllid buddsoddi oedd er mwyn derbyn... (Ticiwch bob un sy'n wir i chi)
    - gwybodaeth ynghylch rhedeg fy musnes o ddydd i ddydd
    - cyngor strategol i helpu fy musnes ddatblygu yn broffidiol
    - cyngor strategol i helpu i gynyddu y nifer sy'n cael eu cyflogi
    - cyngor strategol i helpu i ddatblygu fy musnes o ran cynhyrchiant

Ystyried eich rheswm dros wneud cais am gymorth gan y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd...

7. Wnaethoch chi ystyried ffynonellau ariannu eraill?
    - Do
    - Naddo (*llwybr i'r rhan nesaf)*
    - Dydw i ddim yn gwybod *(llwybr i'r rhan nesaf)*

8. Pa un o'r ffynonellau eraill hyn o gymorth a wnaethoch eu hystyried?
    - Benthyciad o fanciau preifat
    - Grant o raglenni eraill y sector cyhoeddus
    - Cyngor / cymorth ar gyfer busnesau
    - Arall (agor y blwch testun)

Hoffem gael dealltwriaeth ehangach o'r broses o wneud cais ar gyfer y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd.

O ystyried y canllawiau a gafwyd gan Lywodraeth Cymru, i ba raddau ydy chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?

9. Roedd yn hawdd dod o hyd i'r wybodaeth ar sut i ymgeisio
    - Cytuno’n gryf
    - Cytuno
    - Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
    - Anghytuno
    - Anghytuno’n gryf

10. Roedd y canllawiau ar gyfer gwneud cais yn glir ac yn hawdd eu ddeall
    - Cytuno’n gryf
    - Cytuno
    - Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
    - Anghytuno
    - Anghytuno’n gryf

11. Roedd y meini prawf cymhwysedd ac ariannu wedi'u datgan yn glir yn y canllawiau
    - Cytuno’n gryf
    - Cytuno
    - Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
    - Anghytuno
    - Anghytuno’n gryf

12. AR Y CYFAN, roeddwn yn fodlon â'r canllawiau ar wneud cais
    - Cytuno’n gryf
    - Cytuno
    - Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
    - Anghytuno

- Anghytuno’n gryf

Wrth ystyried amserlen y broses ymgeisio, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?

13. Rhoddwyd digon o amser i gwblhau'r ffurflen gais
    - Cytuno’n gryf
    - Cytuno
    - Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
    - Anghytuno
    - Anghytuno’n gryf

14. Roedd yr amserlen ar gyfer y broses ymgeisio a gwneud penderfyniad yn glir
    - Cytuno’n gryf
    - Cytuno
    - Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
    - Anghytuno
    - Anghytuno’n gryf

15. AR Y CYFAN, roeddwn yn fodlon â'r amserlen
    - Cytuno’n gryf
    - Cytuno
    - Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
    - Anghytuno
    - Anghytuno’n gryf

O ystyried eich trafodaethau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, i ba raddau ydych chi yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol.

16. Roedd y cymorth a roddwyd yn glir
    - Cytuno’n gryf
    - Cytuno
    - Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
    - Anghytuno
    - Anghytuno’n gryf

17. Roedd y cymorth a roddwyd yn amserol
    - Cytuno’n gryf
    - Cytuno
    - Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
    - Anghytuno
    - Anghytuno’n gryf

18. AR Y CYFAN, roeddwn yn fodlon â'r cymorth a gefais
    - Cytuno’n gryf
    - Cytuno
    - Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
    - Anghytuno
    - Anghytuno’n gryf

Hoffem gael dealltwriaeth ehangach o unrhyw effaith y mae'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau wedi'i gael ar eich busnes.

Mae'r adran hon am glywed am unrhyw ffyrdd y mae'r cymorth a gafodd eich busnes drwy'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd wedi helpu i amrywio eich prosiectau. Caiff prosiectau arallgyfeirio eu diffinio fel y prosesu cynradd ac / neu eilaidd o gynnyrch amaethyddol.

19. A yw'r cymorth a gafwyd drwy'r Cynllun Buddsoddi Mewn Busnesau Bwyd wedi eich galluogi i amrywio prosiectau yn y flwyddyn ariannol lawn ddiwethaf?
    - Do
    - Naddo
    - Ddim yn gwybod

20. Pa gategori sy'n disgrifio eich prosiectau arallgyfeirio orau?
    - Y diwydiant cig coch
    - Dofednod
    - Wyau
    - Godro
    - Nwyddau wedi'u pobi
    - Diodydd
    - Pysgod
    - Garddwriaeth
    - Grawnfwydydd a Byrbrydau
    - Prydau Parod
    - Arall - nodwch beth

21. O ganlyniad i fuddsoddi mewn prosiect, ydych chi wedi gweld cynnydd mewn cyflogaeth yn y flwyddyn ariannol lawn ddiwethaf? (Cynnwys: llawn a rhan amser, dros dro/ achlysurol, cyfarwyddwyr eraill. Heb gynnwys staff asiantaeth, hunangyflogedig, perchnogion/partneriaid)
    - Do
    - Naddo
    - Ddim yn gwybod

22. Nodwch amcangyfrif o'r nifer o weithwyr ychwanegol. (Cynnwys: llawn a rhan amser, dros dro/ achlysurol, cyfarwyddwyr eraill. Heb gynnwys staff asiantaeth, hunangyflogedig, perchnogion/partneriaid)

23. (Ymateb Agored)

24.

25.

O ystyried unrhyw effaith a gaiff y cymorth yr ydych wedi'i dderbyn drwy y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?

O ganlyniad i'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd, mae fy musnes...

26. Wedi gwella yr addysg, yr hyfforddiant a'r sgiliau y mae'n ei gynnig (i weithwyr)
    - Cytuno'n gryf
    - Cytuno
    - Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
    - Anghytuno
    - Anghytuno'n gryf

27. Wedi bod yn fwy arloesol.
    - Cytuno'n gryf
    - Cytuno
    - Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
    - Anghytuno
    - Anghytuno'n gryf

Wrth ystyried effaith y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd ar eich busnes...

28. A yw'r cymorth gan y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd wedi arwain at un o'r canlynol yn eich busnes? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)
    - Gwneud y busnes yn fwy cystadleuol
    - Mewn safle gwell yn y farchnad ar gyfer allforio
    - Mewn safle gwell yn y farchnad yn y DU
    - Gwerth Ychwanegol
    - Mwy o allforion / gwerth allforion y cynnyrch sy'n cael ei allforio ar hyn o bryd
    - Dim o'r uchod

29. Os oes gennych unrhyw wybodaeth ynghylch canlyniadau sydd heb eu rhestru uchod, neu unrhyw sylwadau ynghylch eich atebion uchod, nodwch hynny yma: *(Ymateb Agored)*

Yma, mae gennym ddiddordeb yn y canfyddiadau o ran perfformiad y busnes (swm yr holl waith a'r gweithgaredd gwariant) o ganlyniad i'r cymorth a gafwyd drwy'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd.

30. Pa newidiadau, os o gwbl, ydych chi wedi'i wneud o ganlyniad i'r cymorth yr ydych wedi'i gael gan y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol i chi)
    - Ehangu cynhyrchiant
    - Safle newydd
    - Symud i fyny'r gadwyn werth
    - Ymuno â marchnadoedd newydd
    - Sefydlu'r busnes
    - Cynnydd mewn cyflogaeth
    - Gwella safle presennol
    - Gwella sgiliau
    - Arallgyfeirio
    - Arall (nodwch beth)

31. Ar y cyfan, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod anghenion eich busnes wedi'u bodloni drwy gymorth y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd?
    - Cytuno'n gryf
    - Cytuno
    - Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
    - Anghytuno
    - Anghytuno'n gryf

32. Ar y cyfan, sut fyddech chi'n disgrifio perfformiad eich busnes ers derbyn cymorth drwy'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd?
    - Mae'r allbwn yn uwch
    - Mae'r allbwn oddeutu yr un peth
    - Mae'r allbwn yn is

Mae'r adran olaf hon yn holi eich barn a'ch profiadau o'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd o ran:

- **unrhyw feysydd sy'n gweithio'n dda;**
- **unrhyw feysydd lle y mae angen gwelliant;**
- **unrhyw feysydd yr ydych yn teimlo y dylai Llywodraeth Cymru fod yn blaenoriaethu i helpu i ddatblygu unrhyw gynlluniau cyllido yn y dyfodol.**

33. Beth, os unrhyw beth, ydych chi wedi ei weld yn arbennig o heriol ynghylch y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd?
    (Ymateb Agored)

34. Beth yn eich barn chi oedd prif lwyddiannau y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd?
    (Ymateb Agored)
    35.
36. Ydych chi'n teimlo y bydd ffocws eich busnes yn newid dros y 5 mlynedd nesaf?
    - Bydd
    - Na fydd (*Llwybr i'r cwestiwn olaf*)
      37.
38. Os bydd, ym mha ffordd/ffyrdd?
    (Ymateb Agored)
    39.
40. Beth fydd y dair brif broblem fydd eich busnes yn eu hwynebu dros y 5 mlynedd nesaf?
    (Ymateb Agored)

41. Os oes gennych unrhyw sylwadau, syniadau neu awgrymiadau pellach ynghylch y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd, defnyddiwch y gwagle isod.
    (Ymateb Agored)

Atodiad D - Canllaw cyfweld (busnesau bwyd)

Dyddiad ac amser y cyfweliad:
Sefydliad/Busnes:

Bore/Prynhawn da. A oes posib siarad â [ENW - Wedi'i ddewis o restr ymlaen llaw] os gwelwch yn dda.

Fy enw i yw Kate/Elspeth. Rwy'n gweithio i dîm ymchwil Dyfodol Cynaliadwy, y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, yn Llywodraeth Cymru ac rydym wedi cael ein comisiynu i ymchwilio'n annibynnol i'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd. Yn ein sgwrs ddiwethaf dros ebost fe gytunoch chi i gymryd rhan yn y cyfweliad hwn, a hoffwn ddiolch i chi am hynny.

Ar hyn o bryd rydym wrthi'n cynnal cyfweliadau dros y ffôn i glywed barn a phrofiadau busnesau am y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd er mwyn clywed am yr hyn sy'n gweithio'n dda gyda'r cynllun a throsglwyddo'r pethau hynny i gynlluniau eraill yn y dyfodol.

Rydym yn siarad â busnesau ar hyd a lled Cymru, a bydd yr wybodaeth yr ydym yn ei chasglu yn cael ei defnyddio er mwyn dangos sut mae sector Bwyd a Diod Llywodraeth Cymru yn cefnogi busnesau. Bydd ymatebion i'r arolwg yn cael eu crynhoi mewn adroddiad, ac ni fyddwch yn cael eich enwi.

Bydd eich atebion i'r cwestiynau yn gwbl gyfrinachol. Bydd yr wybodaeth yr ydych chi a busnesau eraill yn ei rhoi yn ystod y cyfweliadau'n aros yn ddienw.

Ni ddylai'r cyfweliad bara mwy na 40 munud. Gallwch roi'r gorau i'r sgwrs ar unrhyw adeg, a gallwch basio cwestiynau nad ydych eisiau eu hateb.

Gyda'ch caniatâd chi, hoffwn recordio'r cyfweliad. Byddaf yn trawsgrifio'r recordiad o fewn y dyddiau nesaf ac yna bydd yn cael ei ddileu. Bydd unrhyw ddata personol a ddarparwyd gennych yn ystod y cyfweliad yn cael ei dynnu o'r trawsgrifiad cyn y gwaith dadansoddi.

A ydych chi'n hapus i'r cyfweliad hwn gael ei recordio?

- Ydw - os yw, gallwch barhau
- Na - os na, yna diolchwch iddynt am eu hamser a dewch â'r cyfweliad i ben.

Diolch i chi. Nawr byddaf yn dechrau'r recordiad ac yn dechrau'r cyfweliad.

Cwestiynau cynhesu

1. **I ba fusnes ydych chi'n gweithio?**

2. **Beth yw eich rôl chi o fewn y Busnes?**

3. **Ers faint ydych chi wedi gweithio i'r Busnes?**

4. **Sut glywsoch chi am y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd?**
   (HOLI: Facebook, Twitter, gwefan, diwrnod agored / digwyddiadau, ar lafar)
   (Yn Gymraeg?)

Cwestiynau Ymarfer / Proses

5. **Pam wnaethoch chi wneud cais am gymorth gan y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd?**
   HOLI: Cymhelliant dros ymgeisio
   A wnaethoch chi ystyried ffynhonnell gymorth wahanol?
   Os na, pam?
   Os do, beth? - a pham dewis y CBBB?

6. **Sut fyddech chi'n disgrifio'r broses o wneud cais?**
   HOLI: barn ar ffurflenni cais un a dau?
   (Cefnogaeth ar gael yn Gymraeg?)

7. **Beth oeddech chi / ydych chi'n *disgwyl* ei gyflawni?**
   HOLI: Rheswm dros ymgeisio; y busnes yn wynebu unrhyw heriau a / neu gyfleoedd?

8. **Beth *wnaethoch* chi ei gyflawni mewn gwirionedd?**
   HOLI: A wnaethoch chi gyflawni eich disgwyliadau?
   Os na, pam?
   Os wnaethoch chi, sut?

Beth sydd wedi gweithio'n dda (Effeithiau)

9. **O ganlyniad i'r Cynllun Buddsoddi, beth, os unrhyw beth o gwbl, sydd wedi gweithio'n dda?**
   HOLI: Unrhyw newidiadau yn y busnes? Os oes, beth...?
   Wedi denu mwy o fusnes? Os hynny, o ble? (e.e. lleol, rhanbarthol etc)?

10. **O ganlyniad i'r Cynllun Buddsoddi, a yw eich busnes wedi...**

    a) **...cynyddu nifer y swyddi?**
       (Os hynny, HOLI am fwy o fanylion (e.e. llawn amser / rhan amser; mwy o sicrwydd, swyddi â chrefft etc?)
       (Wedi cyflogi mwy o siaradwyr Cymraeg?)

b) **...cynyddu trosiant?**
(Os hynny, HOLI am fwy o fanylion - e.e. cystadleuaeth; safle yn y farchnad (Cymru, y DU ac allforion); mwy o gynnyrch / cynnyrch gwell)

c) **...gwella'r hyfforddiant y mae'n ei gynnig?**
(HOLI: addysg; sgiliau (gan gynnwys sgiliau meddal))
(HOLI: a yw'r newidiadau hyn yn debygol o fod yn rhai parhaus?)
(Hyfforddiant bellach ar gael yn Gymraeg?)

d) **...gwella ei Gynaliadwyedd?**
(Cynaliadwyedd yn golygu cynaliadwyedd amgylcheddol)
(HOLI: a yw'r newidiadau hyn yn debygol o fod yn rhai parhaus?)

e) **...ychwanegu gwerth i'r cadwyni cyflenwi bwyd lleol?**
(h.y. integreiddio'n well gyda chadwyni bwyd lleol gan wneud defnydd o grwpiau cynhyrchu lleol a hysbysebu marchnadoedd lleol a chylchedau cyflenwi byr.)
(HOLI: a yw'r newidiadau hyn yn debygol o fod yn rhai parhaus?)

Beth wnaeth ddim gweithio'n dda (Effeithiau)

11. **Beth, os unrhyw beth o gwbl, wnaeth ddim gweithio'n dda?**
Beth? A pham?
Unrhyw anghenion prosiect heb eu cyflawni?

12. **Beth, os unrhyw beth o gwbl, oedd yr heriau mwyaf?**
A yw'r heriau hyn yn parhau / wedi eu datrys?
Unrhyw fylchau / cyfyngiadau?
Pa rwystrau ydych chi wedi eu hwynebu? (vs) Pa rwystrau ydych chi yn eu rhagweld?

Gwelliannau i ddod

I gloi, rydym yn awyddus i glywed unrhyw welliannau y gellid eu gwneud i gynlluniau yn y dyfodol, a byddem ni'n gwerthfawrogi clywed eich syniadau. Felly, wrth feddwl am welliannau...

13. **Pa gymorth busnes, os unrhyw beth o gwbl, y gallai fod ei angen arnoch yn y dyfodol?**
(HOLI: eich syniadau? Pa fath o gymorth fyddech chi'n ei hoffi yn y dyfodol?
(HOLI: Amgylcheddol? Datblygu hyfforddiant/sgiliau? Iechyd?)

14. **A oes gennych chi unrhyw sylwadau neu adborth ychwanegol?**

Atodiad E - Canllaw cyfweld (swyddogion cymorth busnes)

Cwestiynau cychwynnol

1. **Ers pryd ydych chi'n rheolwr grant?**

2. **Ym mha ranbarth/ardal yng Nghymru ydych chi'n gweithio?**

3. **Yn fyr, beth yw'ch swyddogaeth o ran y busnesau yn [rhanbarth/ardal] sydd wedi derbyn cymorth gan y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd?**

Cwestiynau am y broses

4. **Sut y byddech chi'n disgrifio'r broses ymgeisio?...**
   …i fusnesau?
   …Swyddogion Llywodraeth Cymru? – beth yw eich swyddogaeth/pa gymorth rydych chi'n ei ddarparu yn ystod y broses?

   HOLI YMHELLACH: *amserlenni; cymhlethdod; meini prawf cymhwysedd*

5. **I ba raddau y credwch fod y busnesau rydych yn eu cynorthwyo wedi bodloni amcanion y grant?**
   HOLI YMHELLACH: *Wedi cyflawni mwy/llai/rhywbeth gwahanol i'r hyn a amlinellwyd yn wreiddiol yn y cais? A fyddai wedi bod yn bosibl iddynt gyflawni'r amcanion heb y grant?*

Beth a fu'n llwyddiannus/Cryfderau

Hoffem glywed eich sylwadau ynghylch yr agweddau da ar y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd.

6. **Beth, yn eich barn chi, yw'r agweddau da ar y Cynllun?**
   HOLI YMHELLACH: Beth, yn eich barn chi, yw'r agweddau da ar y Cynllun o safbwynt..
   .. y busnesau a gefnogwyd?
   ... sector Bwyd a Diod Cymru yn fwy cyffredinol?

7. **Beth yw prif gryfderau'r Cynllun yn eich barn chi?**
   HOLI YMHELLACH: Unrhyw enghreifftiau penodol o gryfderau?

Beth na fu mor llwyddiannus?

Hoffem hefyd glywed eich sylwadau ynghylch yr agweddau ar y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd nad oeddent mor llwyddiannus. Gan ystyried eich profiadau yn y swydd rheolwr busnes...

8. **Pa agweddau ar y Cynllun nad oeddent mor llwyddiannus?**
   HOLI YMHELLACH: A fethwyd i fodloni rhai o anghenion y rhaglen? A fethwyd i fodloni rhai o anghenion y busnesau?

9. **Beth oedd y prif heriau a fu ynghlwm wrth y Cynllun?**
   HOLI YMHELLACH: A yw'r heriau hyn yn parhau/wedi'u datrys? Pa mor ymatebol yw'r Cynllun? - a yw'n parhau i adlewyrchu anghenion/cyfleoedd busnesau? Pa mor hyblyg yw'r Cynllun?

10. **Pa rwystrau, os o gwbl, y mae busnesau wedi'u hwynebu o ran y ffordd y caiff y Cynllun ei redeg?**

11. **A oes unrhyw fylchau/cyfyngiadau o ran y cymorth a ddarperir ar hyn o bryd drwy'r Cynllun? – os felly, beth yw'r bylchau/cyfyngiadau?**

Hoffem hefyd wybod mwy am eich barn ynghylch yr heriau y mae busnesau'n eu hwynebu. Un o amcanion y gwaith ymchwil yw sicrhau gwell dealltwriaeth o'r modd y mae'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd yn gweithio ar lefel ymarferol, gan helpu i flaenoriaethu a phennu meysydd y mae angen eu cynorthwyo ymhellach. O ystyried hyn...

12. **Yn eich barn chi, pa heriau y bydd busnesau'n eu hwynebu yn y dyfodol?**

13. **Yn eich barn chi pa gymorth fydd ei angen ar fusnesau i wynebu'r heriau hyn?**

Gwelliannau ar gyfer y dyfodol

Yn olaf, hoffem ddeall yn well unrhyw welliannau a allai gael eu gwneud i unrhyw gynlluniau yn y dyfodol. Hoffem glywed eich sylwadau ynghylch hyn. O ystyried gwelliannau ar gyfer y dyfodol..

14. **Yn eich barn chi, sut allai'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd gael ei wella?**
    HOLI YMHELLACH: Pa un o'r gwelliannau rydych wedi'u nodi yw'r un pwysicaf yn eich barn chi? - Pam?

15. **A oes angen i unrhyw beth wella / fod yn ei le fel y gall sector Bwyd a Diod Cymru lwyddo yn y dyfodol o safbwynt...?**
    …seilwaith
    ...buddsoddiad/cyllid

…hyfforddiant
…technoleg
....gwybodaeth/arbenigedd
...unrhyw beth arall?

Dyna gwestiwn olaf y cyfweliad. Cyn i ni orffen..

16. Hoffech chi rannu unrhyw sylwadau/adborth arall gyda ni?

Atodiad F – Astudiaeth Achos

Tenby Brewing Co.

De-orllewin Cymru

Yn 2017, cyflwynodd y bragdy bach Tenby Brewing Co. gais am gymorth gan y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd er mwyn gallu cynhyrchu mwy ac i gynnig mwy o amrywiaeth yn eu cynnyrch. Cafodd arian y buddsoddiad cyfalaf ei ddefnyddio i brynu adeiladau mwy ac offer arbenigol fel lorïau fforch-godi ac offer bragu modern.

Yr hyn a wnaeth eu hannog i wneud cais oedd er mwyn cael '*digon o gyfalaf i sefydlu ein model busnes*'. Fe wnaethon nhw ddewis y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd am ei fod '*wedi'i deilwra'n dda ar gyfer yr hyn roedd ei angen arnom ni*', gan nad oedd cynlluniau eraill yn ddigon mawr i'w cynlluniau busnes.

Rhan o'r ffordd drwy'r grant, roedd oedi mawr o ran cael rhan o arian y grant i Tenby Brewing Company oherwydd proses aildrefnu timau yn Llywodraeth Cymru. Er gwaethaf y problemau hyn gyda'r broses hawlio, roedden nhw'n fodlon â'r cymorth a gawson nhw ar y cychwyn gan 'un person cyswllt' a oedd wedi 'gweithio'n dda'.

O ganlyniad i'r cynllun, mae Tenby Brewing Co. wedi symud i farchnadoedd newydd gan dargedu tafarndai crand a bwytai sydd ar ben ucha'r farchnad; '*rydym wedi llwyddo i ehangu i gynhyrchu cwrw mewn caniau sy'n sector gros'*. Mae gwaith brandio'r caniau yn cael ei gomisiynu i gwmnïau lleol gan gynnwys arlunydd tatŵ, sy'n cael ei ddefnyddio llawer gan Tenby Brewing Co. i wneud y gwaith dylunio.

I Tenby Brewing Co., un o brif fanteision y grant yw sut '*mae wedi'i gynllunio fel bod modd lansio datblygiad y cwmni ar sail y grant'.* Gan ddefnyddio eu hoffer newydd, mae'r busnes yn fwy effeithlon erbyn hyn o ran cynhyrchiant fesul person.

Ar ben hynny, maen nhw wedi '*treblu*' eu trosiant ac yn cyflogi mwy. Hefyd, gan mai nhw sy'n berchen ar eu hadeilad eu hunain erbyn hyn, maen nhw'n dweud eu bod mewn sefyllfa lawer gwell i wneud newidiadau amgylcheddol, fel gosod paneli solar, na phetaen nhw'n dal yn prydlesu.

'Mae'r grant wedi ein galluogi i osod goleuadau ynni isel fel bod effaith uniongyrchol ar gynaliadwyedd'

Wrth feddwl am wella'r cynllun yn y dyfodol, roedden nhw'n awgrymu y byddai'n dda cael cymorth ar gyfer Ymchwil a Datblygu a chyngor am ddenu staff newydd.

Dywedodd Tenby Brewing Co. '*ein bod wedi rhagori ar ein disgwyliadau*' mewn perthynas â'r grant.

Dyddiad y cyfweliad: Mawrth 2019

The Authentic Curry Company Ltd

De-ddwyrain Cymru

Mae The Authentic Curry Company yn cynhyrchu prydau a seigiau parod, ac ym mis Medi 2015, cyflwynodd y cwmni gais am gymorth gan y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd i ehangu ac i wella'r cyfleusterau storio a chynhyrchu er mwyn cynyddu capasiti i fodloni'r galw gan farchnadoedd newydd a marchnadoedd a oedd eisoes yn bodoli.

Dewisodd The Authentic Curry Company y cynllun am eu bod yn awyddus i ehangu'r cyfleusterau cynhyrchu, ac roedd nodau eu prosiect yn cyd-fynd â meini prawf y cynllun; *'roedd symud i lefel arall yn ehangu'r busnes yn llwyr i ni'.*

Un elfen allweddol y prosiect oedd gosod rhewgelloedd newydd '*modern ac effeithlon*' a oedd yn defnyddio nwy oeri mwy ecogyfeillgar. O ran cynaliadwyedd amgylcheddol, dywedon nhw hefyd eu bod wedi gwneud '*gwelliannau sylweddol*' gan fod ganddyn nhw offer mwy effeithlon erbyn hyn.

Dywedodd The Authentic Curry Company fod rhywfaint o '*rwystredigaeth*' wedi bod gyda'r llwyfan ar-lein a ddefnyddiwyd i hawlio, gan ei bod yn anodd cyflwyno unrhyw '*fân addasiadau i'r prosiect*'. Er gwaethaf hyn, dywedon nhw eu bod '*wedi cyflawni popeth roeddwn i wedi bwriadu ei wneud*' a'u bod, ar y cyfan, yn hapus o fod wedi cael cymorth drwy'r cynllun.

O ganlyniad i'r cynllun, mae The Authentic Curry Company bellach yn defnyddio mwy o gig eidion o Gymru '*nag erioed o'r blaen*'. Dywedon nhw fod '*swmp o'r cig eidion maen nhw'n eu defnyddio yn dod o'r Cynllun Celtic Pride*' a bod 93 y cant o'u deunyddiau crai yn cael ei brynu o fewn yr Undeb Ewropeaidd.

Maen nhw'n cryfhau perthynas gyda'u cwsmeriaid presennol hefyd:

'...Mae'r chilli con carne, y cyri a phastai'r bwthyn sydd â chig eidion o Gymru yn cael eu gwerthu yn Tesco, Asda, Morrison a Sainsbury's. Mae gennym berthynas wych â nhw, ac mae hyn i gyd yn datblygu'.

Yn ôl The Authentic Curry Company, mae *'Is-adran Fwyd Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith arbennig,....ac rydym ni'n teimlo ein bod yn cael eu difetha yng Nghymru gan fod yr is-adran yn cynnig llawer iawn o gymorth i ni'*.

'Rwy'n ddiolchgar iawn am y cyfraniad rydym ni wedi'i gael, mae'r busnes yn well o ran arbedion effeithlonrwydd ac o ran estheteg y busnes. Mae wedi bod yn gynllun da i fod yn rhan ohono'.

Dyddiad y cyfweliad: Mawrth 2019

Henllan Bakery

Gogledd Cymru

Ym mis Ebrill 2016, roedd Henllan Bakery yn cynhyrchu cacennau i 600 o gwsmeriaid, ac roedden nhw'n awyddus i dyfu ac i ehangu mwy. Fe wnaethon nhw gyflwyno cais i gael cymorth fel eu bod yn gallu '*tyfu gyda'r grant*'. Flwyddyn yn ddiweddarach, fe lwyddon nhw i gael cymorth gan y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd a gafodd ei ddefnyddio i '*greu becws newydd sbon*' i ddiwallu'r galw cynyddol gan gwsmeriaid. O ganlyniad i'r cymorth, dywedon nhw eu bod '*gyda'r cyfleusterau newydd, yn gallu cynnig prisiau sy'n fwy cystadleuol nawr gan ein bod yn gallu cynhyrchu'n gyflymach o lawer'.*

Gyda'r cyllid, maen nhw wedi gallu '*tyfu'n gyflymach o lawer*' ac ar '*gyfradd gyson*'. Mae ganddyn nhw un ar bymtheg o gyflogeion amser llawn ychwanegol ac mae eu trosiant blynyddol wedi cynyddu cryn dipyn hefyd.

Dywedon nhw mai'r '*rhan fwy heriol*' iddyn nhw oedd yr oedi wrth hawlio'r pres yn ôl, ac y gallai hyn fod wedi bod yn '*broses gyflymach*'. Ond er gwaethaf y problemau gyda'r broses hawlio, mae'r 'cymorth' [gan y cynllun] wedi bod yn anhygoel' ar y cyfan.

Ar ben hynny, mae Henllan Bakery '*erbyn hyn yn cael 99 neu 98 y cant o'u cynhwysion o'r UE'* ac yn defnyddio '*cigydd sydd ddeg metr i ffwrdd'* ac yn prynu 'i*ogwrt gan gwmni sydd ond bum munud i fyny'r ffordd'.*

Mae Henllan Bakery yn fwy cynaliadwy erbyn hyn hefyd. Er enghraifft, mae gan y becysiau 144 o baneli solar erbyn hyn. Maen nhw wedi gwneud newidiadau bach hefyd fel labelu offer â sticeri i roi gwybod i'r gweithwyr pryd i ddiffodd yr offer a'u rhoi ymlaen er mwyn arbed ynni, a rhoi '*darnau dros ben o gacen mewn bocsys a'u gwerthu am bunt, yn lle'u bod yn mynd i'r safle tirlenwi*'.

Wrth ystyried gwelliannau i'r dyfodol, awgrymodd Henllan Bakery '*mai chwilio am gymorth marchnata fydden ni, dydyn ni ddim yn gweiddi amdanom ni ein hunain ddigon, dydyn ni ddim yn marchnata ein hunain ddigon'.*

Dywedodd Henllan Bakery fod y cymorth gan swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn *'anhygoel'* a *'fydden ni ddim wedi gallu gwneud beth wnaethon ni hebddyn nhw''.*

Dyddiad y cyfweliad: Mawrth 2019